

Bwrdd Iechyd Lleol Sir Ddinbych

**Adolygiad o Gynnydd
yn erbyn Safonau Gofal
Iechyd i Gymru –
1 Ebrill 2006 – 31 Mawrth
2007**

Dyddiad: Hydref 2007

Cynnwys

1.	Cyflwyniad a Chyd-destun	1
2.	Proses Asesu 2006-07	5
3.	Trosolwg o Fwrdd Iechyd Lleol Sir Ddinbych	9
4.	Canfyddiadau	
	▪ Profiad y Claf	11
	▪ Deilliannau Clinigol	22
	▪ Llywodraethu Gofal Iechyd	26
	▪ Iechyd y Cyhoedd	41
5.	Y Camau Nesaf.....	45

Atodiadau

Atodiad 1: Diffiniadau o Lefel Aeddfedrwydd	47
Atodiad 2: Crynodeb o Lefelau Aeddfedrwydd yn ôl Safon	49
Atodiad 3: Crynodeb o Aeddfedrwydd yn ôl Lefelau Corfforaethol, Gweithredol// Deilliannau Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr	56
Atodiad 4: Geirfa Termau.....	58

1. Cyflwyniad a Chyd-destun

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r gwaith a wnaed gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru i brofi a dilysu hunanasesiad Bwrdd Iechyd Lleol (BILI) Sir Ddinbych yn 2006-2007 o'u perfformiad yn erbyn *Safonau Gofal Iechyd Cymru*.

Y Safonau

1.2. Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru *Safonau Gofal Iechyd Cymru* ym Mai 2005 a daethant i rym ar 1 Mehefin 2005. Y maent yn datgan fframwaith cyffredin o safonau gofal iechyd i gefnogi'r GIG a sefydliadau sy'n bartneriaid wrth ddarparu gwasanaethau effeithiol, amserol a safonol ar draws pob lleoliad gofal iechyd.

1.3. Yn anad dim, bwriedir y Safonau Gofal Iechyd i gyflwyno'r lefelau gofal a thriniaeth y mae gan bobl Cymru hawl rhesymol i'w disgwyl, a thrwy hynny fod yn sylfaen i sefydliadau gofal iechyd adeiladu a chyrraedd y disgwyliadau newydd a mwy heriol o ran gofal cleifion a osodir allan yn strategaeth 10-mllynedd Llywodraeth Cynulliad Cymru, '*Cynllun Oes*'. Mae gofyn i bob sefydliad gofal iechyd yng Nghymru ystyried y safonau wrth ddarparu gofal iechyd a chomisiynu gwasanaethau gofal iechyd, waeth lle bo hyn yn cael ei wneud.

1.4. Mae *Safonau Gofal Iechyd Cymru* yn gosod 32 safon dan bedwar maes. Mae pob un o'r meysydd yn deillio o'r gwerthoedd craidd a ddylai fod yn sylfaen i gomisiynu a chyflwyno gwasanaethau gofal iechyd, ac y mae pob safon mewn maes yn disgrifio'r gwerthoedd a gynrychiolir gan y maes hwnnw.

- Mae'r maes cyntaf '*Profiad y Claf*' yn datgan y canlynol:

Seilir safonau i gefnogi darparu gofal iechyd mewn partneriaeth â chleifion, defnyddwyr gwasanaeth, eu gofalwyr a'u perthnasau a'r cyhoedd ar gynlluniau a phenderfyniadau sydd yn parchu anghenion a dewisiadau amrywiol. Bydd gwasanaethau yn gyfeillgar i'r defnyddiwr ac yn canoli ar y claf. Darperir gofal iechyd mewn amgylcheddau sydd yn hybu lles y cleifion a'r

staff a pharch i anghenion a dewisiadau cleifion unigol i'r graddau y byddant wedi eu cynllunio i gyflwyno triniaeth yn effeithiol a diogel ac wedi eu cynnal a'u glanhau i gael y deilliannau iechyd gorau i'r cleifion.

- Mae'r ail faes 'Deilliannau Clinigol' yn sefydlu'r canlynol:

Seilir penderfyniadau a gwasanaethau gofal iechyd ar yr hyn y mae tystiolaeth ymchwil a aseswyd yn briodol wedi ei ddangos fydd yn darparu deiliant effeithiol i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth gan ystyried eu hanghenion a'u dewisiadau unigol. Bydd cleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn derbyn gwasanaethau mor brydlon ag sydd modd, ac ni fyddant yn dioddef oedi afresymol ar unrhyw gyfnod o gyflwyno'r gwasanaeth na'u llwybr gofal.

- Mae'r trydydd maes 'Llywodraethu Gofal Iechyd' yn ei gwneud yn glir y bydd :

Darparwyd a chomisiynwyr gofal iechyd â systemau ar gael sydd yn cefnogi arweinyddiaeth ac atebolrwydd rheolaethol a chlinigol, a hynny wedi ei ganoli o gwmpas anghenion a dewisiadau'r cleifion a'r defnyddwyr gwasanaeth. Bydd arferion gwaith ar gael fydd yn gofalu mai cywirdeb, sicrwydd ansawdd a diogelwch y cleifion fydd yn hanfodion canolog pob trefn, proses a gweithgaredd.

- Dywed y pedwerydd maes 'Iechyd y Cyhoedd' y bydd:

sefydliadau gofal iechyd yn cydweithio gyda sefydliadau perthnasol a chymunedau lleol i sicrhau cynllunio a chyflwyno rhaglenni a gwasanaethau i hybu, gwarchod a gwella iechyd, ac a fydd yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac yn helpu pobl i fyw bywydau iach ac annibynnol.

Sicrhau Cydymffurfio

1.5. O Ebrill 2007 ymlaen, bu rheidrwydd ar sefydliadau gofal iechyd y GIG yng Nghymru i gynnal hunanasesiadau yn erbyn y safonau gofal iechyd a gwneud datganiad cyhoeddus blynyddol o sut y maent wedi perfformio.

1.6. Mae gofyn i sefydliadau gyflwyno eu datganiad a chanlyniadau'r hunanasesiad yn ffurfiol i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru sydd yn gyfrifol am arwain o ran cydgordio profi a dilysu'r canlyniadau, gan ddefnyddio dadansoddiad seiliedig ar risg, yn erbyn ystod o ffynonellau data. Mae'r broses a fabwysiadwyd gan

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru i brofi a dilysu cyflwyniadau 2006-2007 i'w gweld yn yr adran a ganlyn.

1.7. O Ebrill 2008 ymlaen, bydd cydymffurfio yn erbyn y safonau gofal iechyd hefyd yn cael ei ddefnyddio fel sail o wybodaeth i Ddatganiadau Rheolaeth Fewnol ac Adroddiadau Blynyddol sefydliadau.

2. Proses Asesu 2006-2007

Yr Hunanasesu

2.1. Bu 2006-2007 yn flwyddyn o ddatblygu, ac yn gyfnod datblygu a rhoi prawf ar broses newydd o asesiadau. Bu'r pwyslais ar ddatblygu proses asesu sydd yn gosod y cyfrifoldeb am lynu at *Safonau Gofal Iechyd Cymru* yn blwmp ac yn blaen ar Fyrddau sefydliadau gofal iechyd ac sy'n cefnogi'r agenda lywodraethu. Mae'r broses yn gam allweddol tuag at sicrhau y delir sefydliadau gofal iechyd i gyfrif am safon y gwasanaethau y maent yn eu darparu a bod cleifion a'r cyhoedd yn cael mwy o wybodaeth am berfformiad eu darparwyr a'u comisiynwyr gofal iechyd ac, yn bwysicach, y safonau y dylent eu disgwyl.

2.2. Trwy ymgynghori â sefydliadau gofal iechyd a phartneriaid allweddol eraill, datblygodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru broses hunanasesu sydd yn profi perfformiad yn erbyn y *Safonau Gofal Iechyd* ar dair lefel ar wahân:

- *Corfforaethol* – pa mor dda y mae Byrddau yn gwneud eu gwaith o ran sicrhau cydymffurfio â'r Safonau?
- *Gweithredol/Deilliannau Clinigol* – sut y sicrheir cydymffurfio â'r safonau ar lefel gwasanaeth/ward?
- *Profiad y Defnyddiwr*¹ – beth yw profiad y defnyddiwr ac a yw'n gwella?

2.3. Gosodwyd meini prawf a chwestiynau asesu ar gyfer pob safon a'u datblygu yn erbyn asesu ar y we fel bod modd llenwi'r hunanasesiadau ar-lein a llwytho tystiolaeth ddogfennol i fyny i ategu'r atebion a roddir i bob cwestiwn. Yn gefn i'r cwestiynau, y mae canllawiau defnyddiol am ofynion pob un o'r 32 safon.

2.4. Gofynnwyd i sefydliadau asesu eu cynnydd o ran cyflwyno'r lefel uchaf o berfformio yn erbyn pob un o'r 32 safon trwy ddefnyddio matrices aeddfedrwydd. Mae'r matrices aeddfedrwydd yn caniatáu asesu perfformiad ar lefel gorfforaethol,

¹ Yng nghyd-destun proses asesu'r Safonau Gofal Iechyd, defnyddir y term 'defnyddiwr' i ddynodi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a staff.

weithredol a phrofiad y defnyddiwr a chael eu gosod ar un o bum lefel aeddfedrwydd:

- Ymwybodol
- Ymateb
- Datblygu
- Arfer
- Arwain

Mae diffiniad o bob un o'r lefelau aeddfedrwydd hyn yn Atodiad 1.

2.5. Gan mai blwyddyn ddatblygu oedd hon, bu'n rhaid i sefydliadau'r GIG gyfarfod ag amserlenni tyn ac yr oedd gofyn iddynt gyflwyno'r hunanasesiadau cyflawn i AGIC erbyn 30 Mehefin 2007, dri mis wedi rhyddhau'r erfyn asesu. Cyfarfu BILL Sir Ddinbych â'r amserlen a charem gydnabod y gwaith enfawr, yr ymdrech a'r ymroddiad a ddangoswyd gan BILL Sir Ddinbych i ofalu bod terfynau amser wedi eu hateb.

Profi a Dilysu

2.6. Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi profi a dilysu'r cyflwyniad hunanasesu gan BILL Sir Ddinbych, a golygodd hyn nifer o gamau:

- *Cam 1* - Dilysu'r hunanasesiad ar ddesg gan dîm o adolygwyr cyfoed a lleyg. Yr oedd y cam hwn yn golygu gwirio i weld a oedd y cwestiynau oedd yn cefnogi pob maen prawf wedi eu hateb yn briodol, profi i weld a oedd yr ateb wedi ei ategu gan dystiolaeth ddigonol a pherthnasol, a gwerthuso i weld a oedd yr ateb yn cyfateb i'r sgôr aeddfedrwydd a roddwyd gan y sefydliad.
- *Cam 2* - Cynhaliwyd cyfarfodydd cysoni trwy gydol mis Awst i gymharu a gwrthgyferbynnu ymatebion a marciau aeddfedrwydd fesul sefydliad a fesul safon. Yr oedd y cam hwn yn y broses yn hanfodol o ran sicrhau cysondeb a safoni'r sgoriau.
- *Cam 3* – Ymweliadau â safleoedd y sefydliadau i roi prawf ar agweddau pwysig profiad y claf/defnyddiwr.

Ymweliad Safle

2.7. Yr oedd yr ymweliad safle yn un cam ym mhrofi a dilysu hunanasesiad BILL Sir Ddinbych, a chanolbwyntiodd ar roi prawf r agweddau allweddol profiad y defnyddiwr. Cynhaliwyd yr ymweliad ar 19 Medi 2007 a buom yn hwyluso grwpiau ffocws cleifion a staff.

2.8. Hefyd, gwnaed hyfforddiant a gwiriadau mantoli'r Swyddfa Cofnodion Troseddol (SCT) i'r staff ar ddiwrnod ein hymweliad. Gellir gweld rhaglen waith fanwl yr ymweliadau hyn ar wefan AGIC www.hiw.org.uk.

Uwch-Gyfarfodydd Gofal Iechyd

2.9. Ym mis Awst, cydlynodd a hwylusodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru dri chyfarfod rhanbarthol 'Uwch-Gyfarfodydd Gofal Iechyd', oedd yn dwyn ynghyd gyrrff archwilio ac adolygu er mwyn rhannu gwybodaeth a'i fwydo i broses asesu Safonau Gofal Iechyd. Mae'r uwch-Gyfarfodydd hyn yn gam allweddol ar y ffordd i rannu gwybodaeth ar draws sefydliadau a adolygir ac yn natblygu cynlluniau archwilio ac aswiriant ar y cyd.

3. Trosolwg o Fwrdd Iechyd Lleol Sir Ddinbych

3.1. Sefydlwyd BILI Sir Ddinbych ar 1 Ebrill 2003. Mae'n un o 22 BILI a sefydlwyd ledled Cymru, ac y mae pob un yn rhannu'r un ffiniau yn fras â'i Awdurdod Lleol cysylltiedig.

3.2. Prif swyddogaeth y BILI yw gweithredu strategaethau a fydd yn gwella iechyd y boblogaeth leol yn Sir Ddinbych gyfan. Mae ei swyddogaethau allweddol yn cynnwys yr isod:

- llywodraethu corfforaethol a chlinigol
 - sicrhau a darparu gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol a chymunedol
 - sicrhau gwasanaethau gofal eilaidd
 - gwella iechyd cymunedau
 - partneriaeth
- ymwneud â'r cyhoedd
- darparu gwasanaethau

4. Canfyddiadau – Gan gynnwys meysydd Gwella ac Arfer Da

4.1 Profiad y Claf

Safon 1

Caiff barn cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, eu gofalwyr a'u perthnasau a'r cyhoedd ei geisio a'i ystyried wrth gynllunio, ffurfio, cyflwyno, adolygu a gwella gwasanaethau gofal iechyd a'u hintegreiddio â gwasanaethau gofal cymdeithasol.

S1.1. Asesodd y BILI ei hun fel **Arfer** ar y lefel Gorfforaethol a **Datblygu** ar lefelau Gweithredol/Deilliannau Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S1.2. Medrodd y BILI ddangos fod y Bwrdd yn cymryd camau i ddatblygu ymwneud cleifion a'r cyhoedd mewn nifer o ffyrdd; yn eu plith mae:

- Sefydlu is-grŵp Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd (CCC) dan gadeiryddiaeth Cyfarwyddwr Anweithredol ac aelodau eraill gan gynnwys y Nyrs Gyfarwyddwr.
- Strategaeth CCC sy'n datgan cynlluniau cyfredol y BILI, ac mae'n cael ei hadolygu ar hyn o bryd ar gyfer 2007-2010.
- Gofyniad i bob adroddiad i gyfarfod cyhoeddus y bwrdd gael taflen grynhoi asesu effaith sydd yn gosod allan effaith yr adroddiad gan gynnwys ymwneud y cleifion a'r cyhoedd.
- Timau Cynnwys Cyhoedd a'r Cleifion ar y cyd rhwng Conwy a Sir Ddinbych.

S1.3. Mae'r BILI yn cyhoeddi llyfryn lleol 'Eich Canllaw i Wasanaethau Gofal Iechyd Sylfaenol Lleol yn Sir Ddinbych'. Mae hwn yn rhoi manylion am sut y gall pobl ymwneud â'r gwasanaethau a ddarperir gan y BILI. Grŵp lleol o asiantaethau yw Partneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Sir Ddinbych sydd yn gweithio i wella iechyd a lles pobl sy'n byw yn Sir Ddinbych.

S1.4. Lluniodd y BILI holiaduron ac arolygon i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth. Er enghraifft, holiadur monitro cydraddoldeb a cherdyn sylwadau aml-asiantaethol a ddefnyddir ym mhob digwyddiad i gael barn y cyhoedd am nifer o wasanaethau. Gwnaed gwelliannau hefyd o ganlyniad i farn cleifion, defnyddwyr gwasanaeth,

gofalwyr, perthnasau a'r cyhoedd. Er enghraifft, cyflwynwyd 'Arwydd Iechyd' i feddygfeydd yng Nghonwy a Sir Ddinbych o, sydd yn galluogi meddygon a nyrsys i gyfathrebu gyda chleifion sydd yn hollol fyddar neu y mae eu Saesneg yn brin. Cadarnhaodd ymateb o grŵp ffocws y cleifion fod y cleifion yn ystyried fod modd iddynt roi eu barn am ofal iechyd, ond fod ganddynt rai pryderon ynghylch llenwi holiaduron mewn meddygfeydd am fod yn rhaid ychwanegu enwau, a bod hyn yn arwain at bryderon am yr effaith posibl ar eu gofal.

S1.5. Ystyriwn y BILI fod yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol a Phrofiad y Defnyddiwr gan fod tystiolaeth o gymhwyso ymarferol ar draws y sefydliad, ond nid oes tystiolaeth o wella parhaus. Ar y lefel Weithredol/Deilliannau Clinigol ystyriwn y BILI yn **Ymateb** am na fedrwn ganfod sut y gall staff ddylanwadu ar broses casglu barn gan gleifion, defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr, perthnasau a'r cyhoedd.

Safon 2

Mae cynllunio a chyflwyno gofal iechyd:

- a. *yn adlewyrchu profiadau, barn a dewisiadau cleifion a defnyddwyr gwasanaeth;*
- b. *yn adlewyrchu anghenion iechyd y boblogaeth a wasanaethir;*
- c. *yn seiliedig ar dystiolaeth a'r arfer gorau y cytunir arnynt yn genedlaethol; ac*
- d. *yn sicrhau cydraddoldeb mynediad at wasanaethau.*

S2.1. Asesodd y BILI ei hun fel yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol a Gweithredol/Deilliannau Clinigol ac yn **Arfer** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S2.2. Medrodd y BILI ddangos ymwneud y Byrddau â chynllunio a chyflwyno gofal iechyd fel a ganlyn:

- Y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles (SIGCLI) sydd wrth graidd penderfyniadau'r Byrddau am anghenion iechyd lleol, gydag adroddiadau cynnydd rheolaidd yn erbyn y blaenoriaethau allweddol sydd yn y SIGCLI yn destun adroddiadau i'r Bwrdd.
- Nifer o bwyllgorau ac is-grwpiau megis y Pwyllgorau Llywodraethu Clinigol, ac Archwilio Clinigol ac Effeithiolrwydd Clinigol, sydd yn ystyried y gofynion a'r galwadau sy'n codi o wahanol safonau, canllawiau a pholisïau cenedlaethol.

- Defnyddio'r data a dderbyniwyd gan Wasanaeth Cenedlaethol Iechyd y Cyhoedd (GCIC) ac adolygiadau allanol, e.e., adroddiad Comisiwn Archwilio Cymru.
- Canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NICE) a rhybuddion Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion (AGDC) yn cael eu hanfon at y contractwr perthnasol.
- Cytuno, gyda'r Ymddiriedolaeth aciwt lleol a BILI, ar gynllun gweithredu moderneiddio ar y cyd i wella'r gwasanaeth a'i fonitro yn rheolaidd.

S2.3. Mae gan y BILI nifer o wahanol fecanweithiau ar gyfer monitro cynllunio a chyflwyno gofal iechyd i'w boblogaeth leol, er enghraifft, adroddiadau rheoli perfformiad i'r Bwrdd i roi gwybod iddynt am gynnydd. Mae'r BILI yn monitro cyflwyno'r Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol trwy'r Fframwaith Ansawdd a Deilliannau (FfAD) ac adolygiadau gwasanaeth o feddygfeydd meddygon teulu. Mae gwasanaethau deintyddol a fferyllfeydd cymunedol hefyd yn cael eu monitro. Mae'r staff yn ymwneud â chyrraedd a gwella cyflwyno gwasanaethau trwy gyfarfodydd rheoli wythnosol, fforymau staff misol a chyfarfod tîm misol i'r holl staff.

S2.4. Mae'r BILI yn monitro data er mwyn gofalu bod gan gleifion fynediad at y gwasanaethau y maent eu heisiau. Defnyddir data megis amseroedd aros, defnyddio gwasanaethau meddygol cyffredinol, gwasanaethau tu allan i orau, a mynediad brys. Mae'r grŵp Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd (CCC) yn ymwneud â chynllunio gwasanaethau gofal canolraddol, a dosberthir gwybodaeth cleifion i feddygfeydd meddygon teulu gan gynnwys canllawiau NICE ac AGDC. Mae'r BILI hefyd yn cynhyrchu taflen 'Eich canllaw i Wasanaethau Gofal Iechyd Sylfaenol Lleol' sydd yn rhoi gwybod i gleifion am y gwasanaethau sydd ar gael. Mae adroddiadau am amseroedd aros ar gael i'r cyhoedd. Yr oedd y cleifion y buom ni'n siarad â hwy yn gyffredinol yn meddwl bod ansawdd gofal sylfaenol ac eilaidd yn ardal Sir Ddinbych yn dda. Fodd bynnag, yr oedd peth pryder ynghylch diffyg darpariaeth gwasanaethau iechyd arbenigol yng ngogledd Cymru a'r ffaith fod cleifion yn gorfod teithio i Gaerdydd i gael triniaeth.

S2.5. Er ein bod yn medru cadarnhau asesiad y BILI o **Ddatblygu** ar y lefelau Corfforaethol a Gweithredol/Deilliannau Clinigol yr ydym hefyd yn ystyried eu bod yn **Datblygu** ar lefel Profiad y Defnyddiwr gan nad oes tystiolaeth o wella parhaus.

Safon 3

Cleifion gydag anghenion iechyd brys yn cyrchu'r gofal priodol yn brydlon ac o fewn y terfynau amser a osodir yn flynyddol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

S3.1. Asesodd y BILI ei hun fel yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol, Gweithredol/Deilliannau Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr lefelau.

S3.2. Mae'r BILI yn monitro ac yn derbyn adroddiadau ar dargedau mynediad brys (95% o gleifion i dreulio llai na phedair awr mewn adran ddamweiniau a brys ac ni ddylai'r un claf orfod aros mwy nac wyth awr).

S3.3. Mae staff y BILI yn monitro cynnydd targedau ar gyfer gofal sylfaenol ac eilaidd. Mae staff BILI yn aelodau o grwpiau rhanddeiliaid aml-asiantaethol gan gynnwys y 'Grŵp Llywio Gofal Annisgwyl', 'Fforwm Moderneiddio Nyrsys Ardal' a fforwm i reoli'r 'Strategaeth Cyflyrau Tymor Hir'. Caiff staff wybod hefyd am ddatblygiadau mewn gofal brys a chyrraedd targedau mynediad trwy gyfrwng nifer o fforymau megis cyfarfodydd tîm rheoli wythnosol, fforymau staff misol a sesiynau cyfarwyddo timau.

S3.4. Yr ydym yn cytuno gydag asesiad y BILI o **Ddatblygu** ar y tair lefel.

Safon 4

Mae adeiladau gofal iechyd wedi eu cynllunio'n dda ac yn briodol er mwyn gwneud y canlynol:

- a. *hybu lles cleifion a staff;*
- b. *parchu anghenion, preifatrwydd a chyfrinachedd gwahanol gleifion;*
- c. *cadw mewn cof ddiogelwch cleifion, defnyddwyr a staff; a*
- d. *darparu amgylchedd diogel sy'n amddiffyn cleifion, staff, ymwelwyr a'u heiddo, ac asedau ffisegol y sefydliad.*

S4.1. Asesodd y BILI ei hun fel yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol a Gweithredol/Deilliannau Clinigol ac yn **Arfer** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S4.2. Medrodd y BILI ddangos fod y Bwrdd yn cymryd camau i ymdrin â'r safon hon fel a ganlyn:

- Strategaeth Stadau Gofal Sylfaenol a ddatblygwyd gan y Bwrdd a chontractwyr. Mae hyn yn ystyried yr asesiad anghenion am gleifion a staff yn y gymuned.
- Arolwg Gofal Eilaidd sydd wedi ymgynghori â chleifion a staff, ac a ddefnyddir i hybu cynllunio a datblygu adeiladau gofal eilaidd.
- Sicrhau cydymffurfio â gofynion statudol a deddfwriaeth trwy strategaethau a gymeradwywyd gan y Bwrdd.
- Llinellau atebolrwydd clir ar faterion diogelwch, fel y'i datgenir yn y Strategaeth Rheoli Risg. Y Prif Weithredwr yw'r swyddog iechyd a diogelwch atebol ac y mae'n gyfrifol am ddiogelwch cleifion, defnyddwyr a staff. Hefyd, mae dau swyddog enwebedig yn cynnal asesiadau risg.

S4.3. Mae staff yn rhan o gynllunio a datblygu amgylcheddau gofal iechyd, a buont yn ymwneud â nifer o brosiectau, er enghraifft, prosiect adleoli y Gwasanaeth Adfer wedi Strôc. Gall staff hefyd godi materion ac unrhyw bryderon sydd ganddynt mewn perthynas ag adeiladau gofal iechyd mewn nifer o ffyrdd, megis trwy'r drefn adrodd, fforymau staff a sesiynau cyfarwyddo timau lle gall y staff godi cwestiynau a mynegi barn. Y mae hyfforddiant iechyd a diogelwch ar gael i holl staff y BILI. Mae hyn yn golygu trin a chodi a diogelwch tân, ac y mae hyfforddiant ar-lein hefyd ar gael i gontractwyr trwy safle mewnrwyd y BILI.

S4.4. Gall defnyddwyr gwasanaeth ddylanwadu ar gynllunio a datblygu amgylcheddau gofal iechyd. Er enghraifft, cawsant eu cynnwys yn yr ymgynghori ar y Strategaeth Stadau Gofal Sylfaenol. Mae defnyddwyr gwasanaeth hefyd yn cael eu cynnwys fel mater o drefn mewn cynllunio lleol. O ganlyniad i sylwadau gan gleifion a'r Cyngor Iechyd Cymuned, gwnaed newidiadau i'r gwasanaethau adfer wedi strôc oedd yn cynnwys newidiadau i gynllun y lloeriau a chynllunio'r llety newydd.

S4.5. Gallwn gytuno gydag asesiad y BILI eu bod yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol a Gweithredol/Deilliannau Clinigol ac ystyriwn hefyd eu bod yn **Datblygu** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

Safon 5

Darperir gwasanaethau gofal iechyd mewn amgylcheddau sydd

- a. wedi eu cynnal yn dda a'u cadw ar lefelau cenedlaethol derbyniol o ran glendid;*
- b. yn lleihau'r risg o heintiau cysylltiedig â gofal iechyd i gleifion, staff ac ymwelwyr, gan leihau'r cyfryw ddigwyddiadau flwyddyn ar ôl blwyddyn; ac*
- c. yn pwysleisio safonau uchel hylendid ac yn adlewyrchu mentrau arferion gorau.*

S5.1. Asesodd y BILI ei hun fel **Arfer** ar y lefelau Corfforaethol a Phrofiad y Defnyddiwr ac yn **Datblygu** ar y lefel Weithredol/Deilliannau Clinigol.

S5.2. Mae'r BILI yn derbyn sicrwydd parthed cynnal amgylcheddau gofal iechyd trwy gyfrwng yr isod:

- Y Strategaeth Gofal Sylfaenol.
- Adolygu meddygfeydd meddygon teulu i wneud yn siŵr eu bod wedi eu cynnal yn dda, bod safonau glendid yn cael eu cynnal a bod risg heintiau cysylltiedig â gofal iechyd yn cael eu lleihau.
- Cyfarfodydd misol gyda rheolwyr practis i drafod unrhyw faterion sy'n codi.
- Practis deintyddol yn cwblhau adolygiadau Sicrhau Ansawdd.
- Monitro cynnydd yn erbyn targedau SaFF a thargedau cerdyn sgorio cytbwys mewn perthynas â heintiau a gafwyd mewn ysbyty.
- Gofyniad i bob gwasanaeth gofal sylfaenol lofnodi contract gyda'r BILI sy'n datgan fod ganddynt fframwaith llywodraethu clinigol cadarn.

S5.3. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Clinigol yn monitro ac yn derbyn adroddiadau ar heintiau a gafwyd mewn gofal iechyd o ddarparwyr gofal eilaidd. Cynhaliwyd archwiliad rheoli haint ledled meddygfeydd meddygon teulu gan ddefnyddio pecyn cymorth a ddarparwyd gan y CGDC. Mae cartrefi nyrsio yn cael eu monitro gan y

tîm nyrsio a byddant yn cydweithio'n agos ag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn hyn o beth.

S5.4. Gallwn gytuno gydag asesiad y BILL eu bod yn **Datblygu** ar y lefel Weithredol/Deilliannau Clinigol, ond ystyriwn eu bod yn **Datblygu** ar y lefel Gorfforaethol a Phrofiad y Defnyddiwr gan nad oes tystiolaeth o wella cyson ar draws y sefydliad.

Safon 6

Mae sefydliadau gofal iechyd, wrth gydnabod gwahanol anghenion iaith, cyfathrebu, corfforol a diwylliannol, yn gwneud y canlynol:

- a. peri bod gwybodaeth ar gael ac yn hygyrch i gleifion, defnyddwyr gwasanaeth, eu gofalwyr a'u perthnasau a'r cyhoedd am eu gwasanaethau;*
- b. rhoi i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth wybodaeth amserol am eu cyflwr; y gofal a'r driniaeth y byddant yn ei dderbyn yn ogystal ag ôl-ofal a threfniadau cefnogi; ac*
- c. yn rhoi cyfle i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth drafod a chytuno ar ddewisiadau ynglŷn â'u gofal.*

S6.1. Asesodd y BILL ei hun fel yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol, Gweithredol/Deilliannau Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S6.2. Medrodd y BILL ddangos eu bod yn cydnabod gwahanol anghenion iaith, cyfathrebu, corfforol a diwylliannol y boblogaeth y mae'n ei gwasanaethu fel a ganlyn:

- Darparu taflenni gwybodaeth gyffredinol a ddsberthir i gontractwyr gofal sylfaenol megis deintyddion a fferyllwyr.
- Gwybodaeth am wasanaethau ar gael ar wefan y BILL.
- Datblygu a gweithredu nifer o gynlluniau cydraddoldeb, gan gynnwys hil, anabledd a rhyw.
- Contract gyda language line.
- Cyflwyno cwrs newydd i ofalwyr, dan yr enw 'Gofalu Amdana'i' gyda'r nod o roi i ofalwyr y sgiliau i'w helpu yn y gwaith o ofalu.

S6.3. Mae gan y BILI strategaeth gyfathrebu sydd yn cydnabod pwysigrwydd cyfathrebu effeithiol fel dull o ddatblygu a gwella ei berthynas gyda phoblogaeth yr ardal mae'n ei gwasanaethu. Mae grŵp gorchwyl a gorffen sy'n edrych ar anghenion hyfforddi a datblygu. Nod y grŵp hwn yw datblygu set craidd o gyrsiau hyfforddi i staff. Mae staff y BILI, y sector annibynnol a chontractwyr gofal sylfaenol oll wedi derbyn hyfforddiant ar y Ddeddf Iechyd Meddwl a'r gwasanaethau eiriol sydd ar gael i bobl â phroblemau iechyd meddwl.

S6.4. Cadarnhaodd ein hymweliad arsylwi fod mecanweithiau ar gael, a sylwyd bod y BILI yn cydnabod gwahanol anghenion cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr, perthnasau a'r cyhoedd. Ystyriwn felly bod y BILI yn **Datblygu** ar bob lefel.

Safon 7

Anogir cleifion a defnyddwyr gwasanaeth, gan gynnwys y rhai â chyflyrau tymor-hir, i gyfrannu at eu cynllun gofal a chânt gyfle ac adnoddau i ddatblygu medr mewn hunanofal.

S7.1. Asesodd y BILI ei hun fel yn **Arfer** ar y lefelau Corfforaethol a Phrofiad y Defnyddiwr ac yn **Datblygu** ar y lefel Weithredol/Deilliannau Clinigol.

S7.2. Mae'r BILI yn galluogi cleifion a defnyddwyr gwasanaeth i ymwneud â'r dewisiadau am eu gofal a'u triniaeth mewn nifer o ffyrdd. Yn eu plith mae'r isod:

- Defnyddio'r Broses Asesu Unedig i gleifion â chyflyrau tymor hir. Mae'r broses hon yn rhoi'r claf wrth galon yr asesu a'i d/ddwyn i mewn o'r cychwyn.
- Comisiynu cwrs newydd i ofalwyr, 'Gofalu Amdana'i', gyda'r nod o baratoi gofalwyr a rhoi iddynt y sgiliau i reoli'r gwaith o ofalu.
- Comisiynu gwasanaethau'r Gwasanaeth Cenedlaethol Eiriol Ieuenctid.
- Rhoddir copïau o 'Gofal Nyrsio y Telir Amdano gan y GIG mewn Cartrefi Gofal yng Nghymru' i bawb a dderbynnir i gartref gofal.
- Cyflwyno nifer o gynlluniau Fferyllfa sydd yn cynnwys ymgyrchoedd rhoi'r gorau i smygu a hybu iechyd.

S7.3. Gwnaeth y BILI waith i ddatblygu a chynnal cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'u gofalwyr gyda chyflyrau tymor hir. Mae'r Rhaglen Cleifion Arbenigol ar gael i

helpu unigolion i ddysgu sgiliau a thechnegau newydd i reoli eu cyflwr. Mae cydlynnydd y Rhaglen Cleifion Arbenigol yn cysylltu â sefydliadau gwirfoddol a gwasanaethau cymdeithasol i wneud yn sicr fod staff yn ymwybodol o'r rhaglen. Mae cydlynnydd cyflyrau tymor hir y BILI hefyd yn creu cysylltiadau gyda'r proffesiynau iechyd a gofal cymdeithasol ar draws Sir Ddinbych er mwyn gofalu eu bod yn ymwybodol o'r adnoddau hunanofal sydd ar gael.

S7.4. Ystyriwn fod y BILI yn **Datblygu** ar y tair lefel gan na ddarparwyd tystiolaeth o wella cyson.

Safon 8

Mae sefydliadau gofal iechyd yn sicrhau'r canlynol:

- a. fod staff yn trin cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, eu perthnasau a'u gofalwyr gydag urddas a pharch;*
- b. y trinnir y staff eu hunain gydag urddas a pharch am eu gwahaniaethau;*
- c. y ceir cydsyniad deallus yn briodol ar gyfer pob cyswllt â chleifion a defnyddwyr gwasanaeth ac i ddefnyddio gwybodaeth gyfrinachol am gleifion; a*
- d. bod gwybodaeth am gleifion yn cael ei drin yn gyfrinachol, ac eithrio lle bo deddfwriaeth yn awdurdodi i'r gwrthwyneb.*

S8.1. Asesodd y BILI ei hun fel yn **Arfer** ar y lefelau Corfforaethol, Gweithredol/Deilliannau Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S8.2. Medrodd y BILI ddangos eu bod yn cymryd camau i wella sut y trinnir cleifion, gofalwyr, defnyddwyr gwasanaeth, perthnasau a staff mewn perthynas ag urddas a pharch. Nodwyd y mesurau canlynol:

- Cymeradwyir pob cynllun cydraddoldeb gan y Bwrdd a'u monitro gan gydweithgor BILI Conwy a Sir Ddinbych.
- Datblygwyd canllawiau ar 'Gael Cydsyniad Deallus' mewn Gofal Sylfaenol, a roddwyd i bob contractwr gofal sylfaenol.
- Datblygu Polisi Deddf Diogelu Data, gyda Pholisi Diogelwch TRhG, Gweithdrefn Hafan Ddiogel a Pholisi Cyrchu Cofnodion Iechyd.

S8.3. Mae rhaglen gynefino'r BILI yn cynnwys hyfforddiant cydraddoldeb, amrywiaeth a chyfrinachedd cleifion i'r holl staff, a darperir hyfforddiant rheolaidd hefyd ar faterion cwynion a diogelu data. Mae hyfforddiant ar gydsyniad deallus hefyd yn cael ei ddarparu i staff contract trwy'r Gymdeithas Gwarchod Meddygol. Fel rhan o'r rhaglen ymweliadau llywodraethu clinigol, caiff deddfwriaeth ar gydsyniad cleifion a'r arferion gorau ei fonitro. Mae staff yn cael y cyfle i drafod materion naill ag aelod o'r Bwrdd nad yw'n swyddog, aelod o'r Tîm Gweithredol, neu eu rheolwr llinell. Mae fforymau a chyfarfodydd cyfarwyddo staff yn ffordd arall o fynegi barn. Mae'r Ganolfan Gwasanaethau Busnes (CGB) hefyd yn darparu 'cymorthfeydd' Adnoddau Dynol (AD) rheolaidd i staff drafod unrhyw faterion yn breifat. Amlygodd yr arolwg staff nifer o feysydd adborth cadarnhaol o ran parch a sut y mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu trin. Fodd bynnag, adroddodd nifer fechan o staff fel rhan o'r arolwg eu bod yn teimlo eu bod yn destun bwlio neu aflonyddu. Mewn ymateb i hyn, cyflwynodd y BILI hyfforddiant ar y materion hyn ac y maent wedi gofalu fod y BILI yn datblygu diwylliant o fod yn erbyn bwlio.

S8.4. Ystyriwn fod y BILI yn **Datblygu** ar bob lefel gan fod cymhwyso ymarferol yn digwydd ledled y sefydliad ond dim tystiolaeth o wella cyson.

Safon 9

Lle darperir bwyd, mae systemau ar gael i sicrhau'r canlynol:

- a. *fod cleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn cael dewis o fwyd sydd wedi ei baratoi'n ddiogel ac sy'n rhoi diet cytbwys; ac*
- b. *yr atebir gofynion dietegol maethol, personol, diwylliannol a chlinigol cleifion a defnyddwyr gwasanaeth, gan gynnwys unrhyw help sydd ei angen gyda bwydo ac y gallant fynd at fwyd 24 awr y dydd.*

S9.1. Asesodd y BILI ei hun fel yn **Ymateb** ar y lefel Gorfforaethol ac yn **Datblygu** ar y lefelau Gweithredol/Deilliannau Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S9.2. Dywed y BILI eu bod yn dibynnu ar AGGCC i sicrhau fod cartrefi gofal yn cydymffurfio â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol mewn perthynas â bwydo a maeth. Hefyd, nid ydynt yn cael ymateb uniongyrchol mewn perthynas â materion bwyd a maeth. Darparwyd hyfforddiant i nyrsys practis a staff cartrefi gofal ar ddefnyddio'r Erfyn Sgrinio Diffyg Maeth Cyffredinol (MUST) a sgrinio am lyncu normal.

S9.3. Ystyriwn y dylai comisiynwyr fod yn gofalu bod sefydliadau darparu o bob math â systemau a phrosesau ar gael i sicrhau yr atebir gofynion y safon hon. Dylai BILI fod yn monitro hyn fel rhan o'u cyfrifoldebau comisiynu.

S9.4. Yr ydym yn cytuno ag asesiad y BILI o fod yn **Ymateb** ar lefel Gorfforaethol a **Datblygu** ar y lefelau Gweithredol/Deilliannau Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

Safon 10

Mae sefydliadau gofal iechyd yn gofalu na wahaniaethir yn annheg yn erbyn pobl sy'n mynd at ofal iechyd ar sail oedran, rhyw, anabledd, ethnigrwydd, hil, crefydd na thuueddiad rhywiol.

S10.1. Asesodd y BILI ei hun fel yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol, Gweithredol/ Deilliannau Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S10.2. Medrodd y BILI ddangos eu bod yn ateb gofynion statudol o ran camwahaniaethu annheg yn erbyn pobl sy'n mynd at ofal iechyd ar sail oedran, rhyw, anabledd, ethnigrwydd, hil, crefydd neu dueddiad rhywiol trwy'r isod:

- Cynlluniau cydraddoldeb ar gael.
- Cyd-weithgor Conwy a Sir Ddinbych.
- Cynhelir Sgrinio Effaith Cydraddoldeb ar yr holl brif strategaethau a chynlluniau, e.e., Strategaeth IGCLI a chynlluniau'r Strategaeth Stadau Gofal Sylfaenol.
- Adolygir yr holl bolisiâu a'r arferion o ran camwahaniaethu ar sail oedran mewn perthynas â phobl hŷn yn unol â'r Fframwaith Gwasanaeth cenedlaethol (FfGC).

S10.3. Mae'r BILI yn sicrhau y cynhelir sesiynau hyfforddiant cydraddoldeb ac ymwybyddiaeth yn rheolaidd i staff trwy gyfarfodydd cyfarwyddiaethau a thimau a sesiynau datblygu'r Bwrdd. Hefyd, sefydlwyd gweithgor fel is-grŵp i'r bartneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles i ddatblygu agweddau ar y cyd at fonitro, gwerthuso ac asesu effaith cydraddoldeb.

S10.4. Cafwyd nifer o ddatblygiadau gyda'r nod o ymdrin ag anghenion grwpiau ac unigolion penodol gan gynnwys plant a phobl hŷn. Mewn perthynas â gwasanaethau

iechyd meddwl, sefydlwyd tîm ymateb mewn argyfwng i gefnogi'r rheiny sydd â phroblemau iechyd meddwl i aros yn eu cartrefi, gan leihau'r angen am eu derbyn i ysbytai aciwt. Dengys tystiolaeth gynnar fod y gwasanaeth hwn yn llesol, gyda llai yn cael eu derbyn i ysbytai ac yn aros yno am gyfnodau byrrach.

S10.5. Gallwn gytuno gydag asesiad y BILI eu bod yn **Datblygu** ar y tair lefel.

4.2. Deilliannau Clinigol

Safon 11

Mae sefydliadau gofal iechyd yn sicrhau'r isod:

- a. Fod gofal a thriniaethau clinigol yn cael eu cyflwyno gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol sydd yn gwneud penderfyniadau clinigol seiliedig ar arfer y mae tystiolaeth ar ei gyfer;*
- b. y rhoddir gofal a thriniaethau clinigol dan oruchwyliaeth ac arweinyddiaeth glinigol briodol;*
- c. fod gweithwyr clinigol yn gyson yn cyfoesi'r sgiliau a'r technegau perthnasol i'w gwaith clinigol gan gynnwys adolygiadau cyfoedion; a*
- d. bod gweithwyr clinigol yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn archwiliadau ac adolygiadau o wasanaethau clinigol.*

S11.1. Asesodd y BILI ei hun fel yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol, Gweithredol/ Deilliannau Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S11.2. Mae gan y sefydliad systemau i sicrhau y cynhelir gofal a thriniaethau clinigol yn briodol, ac yn eu plith mae:

- Strategaeth Archwilio Clinigol ar y cyd rhwng BILI Conwy a Sir Ddinbych .
- Lledaenu canllawiau arfer da i gcontractwyr, cartrefi nyrsio a gwasanaethau tu allan i oriau.
- Adolygu canllawiau gan NICE a CGDC gan is-grŵp effeithiolrwydd clinigol y BILI a chynnal archwiliadau lle bo hynny'n briodol.
- Mantoli meddygon teulu yn flynyddol, ac adrodd am hyn i'r Bwrdd trwy'r Cyfarwyddwr Meddygol.
- Gweithredu rhaglen hyfforddi a gyflwynir i'r Bwrdd er mwyn gofalu fod sgiliau gweithwyr clinigol yn cael eu cyfoesi.

S11.3. Rheolir rhaglen archwiliadau clinigol y BILI gan y cydlynnydd llywodraethu clinigol. Anogir contractwyr gofal sylfaenol i greu eu cynlluniau archwilio blynyddol,

eu hunain a'u rhannu gyda'r BILI unwaith iddynt gael eu cwblhau. Mae pob contractwr annibynnol yn ardal Sir Ddinbych bellach wedi enwebu pobl i arwain ar Lywodraethu Clinigol a chynhaliwyd hyfforddiant i feddygon teulu. Mae'r grŵp DPP lleol yn rhoi hyfforddiant i staff meddygol am fantoli.

S11.4. Hysbysir cleifion am yr arferion gorau trwy daflenni gwybodaeth NICE i gleifion. Mae archwiliadau addas hefyd yn cael eu rhannu gyda chleifion, er enghraifft, arolwg cleifion blynyddol y meddygon teulu, sy'n cael ei gyfleu yn ôl i'r cleifion trwy wefannau practis, fforymau cleifion a llythyrau newyddion.

S11.5. Gallwn gytuno gydag asesiad y BILI eu bod yn **Datblygu** ar bob lefel.

Safon 12

Mae sefydliadau gofal iechyd yn sicrhau y caiff cleifion a defnyddwyr gwasanaeth driniaeth a gofal effeithiol sydd yn:

- a. cydymffurfio â mantoliadau a gweithdrefnau ymyriadol y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NICE), ac argymhellion Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (GSMCG);*
- b. seiliedig ar arferion gorau a chanllawiau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol, fel y'u diffiniwyd yn y Fframweithiau Gwasanaeth Cenedlaethol, canllawiau clinigol NICE, cynlluniau cenedlaethol a chanllawiau cenedlaethol y cytunwyd arnynt ar gyflwyno gwasanaethau;*
- c. ystyried anghenion a dewisiadau corfforol, cymdeithasol, diwylliannol a seicolegol cleifion; ac*
- d. wedi ei integreiddio o roi gwasanaeth diwriad ar draws pob sefydliad sydd angen bod yn rhan, gan gynnwys sefydliadau gofal cymdeithasol*

S12.1. Asesodd y BILI ei hun fel yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol, Gweithredol/ Deilliannau Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S12.2. Mae'r BILI yn cymryd camau i ymdrin â'r safon hon trwy'r canlynol:

- Cyflwyno Llwybr Gofal Integredig ac y mae'r cydlynnydd cyflyrau tymor hir yn rhoi'r newyddion diweddaraf am Brosiect Llwybr Gofal Integredig (LIGI) y Bwrdd.

- Adolygu pob claf mewn cartref gofal. Mae'r dogfennau a ddefnyddir yn gwneud yn sicr fod agweddau corfforol, diwylliannol, cymdeithasol a seicolegol gofal yn cael eu monitro gan dîm nyrsio'r BILI.
- Darparu hyfforddiant ar Hanfodion Gofal gan Fforwm Nyrsys Sir Ddinbych.
- Dosbarthwyd Hanfodion Gofal i bob cartref gofal a nyrs practis dros y chwe mis diwethaf.

S12.3. Mae staff yn cael eu paratoi a'u cefnogi i addasu i anghenion gwahanol cleifion trwy hyfforddiant cynefino corfforaethol a llywodraethu clinigol. Mae Fforwm Nyrsys Sir Ddinbych hefyd wedi rhoi hyfforddiant penodol mewn perthynas â MUST er mwyn gwneud yn sicr fod trigolion cartrefi gofal yn derbyn y safonau gofal angenrheidiol a'r ymyriadau priodol.

S12.4. Mae'r BILI yn monitro cwynion a phryderon i nodi themâu cyffredin, a chaiff sesiynau hyfforddi eu haddasu i ymdrin â'r mater a godwyd. Er enghraifft, mewn ymateb i themâu a nodwyd mewn perthynas â chyfathrebu ac agwedd, mae'r BILI wedi ailgynllunio'r hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Gwynion i ymdrin â hyn.

S12.5. Gallwn gytuno gydag asesiad y BILI eu bod yn **Datblygu** ar y lefel Gorfforaethol. Fodd bynnag, ystyriwn mai **Ymateb** y maent ar y lefelau Gweithredol/Deilliannau Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr gan nad oes dim tystiolaeth o gymhwyso ymarferol ar draws y sefydliad, ac nad yw profiad yr unigolyn eto yn gyson.

Safon 13

Mae gan sefydliadau gofal iechyd, sydd naill ai yn arwain neu'n cymryd rhan mewn ymchwil, systemau i sicrhau bod egwyddorion a gofynion y fframwaith llywodraethu ymchwil yn cael eu cymhwyso yn gyson.

S13.1. Asesodd y BILI ei hun fel yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol a Phrofiad y Defnyddiwr ac yn **Arfer** ar y lefel Weithredol/Deilliannau Clinigol.

S13.2. Rhoddwyd cytundeb ar waith i reoli ymchwil gael ei wneud ar ran y BILI. Mae'r BILI yn dal yn rhan o'r broses, a chyflwynir adroddiadau chwarterol am weithgaredd ymchwil i'r Pwyllgor Llywodraethu Clinigol. Y Cyfarwyddwr Meddygol

sy'n arwain ar ymchwil a datblygu ar y BILI, ac mae'r Cydlynnydd Llywodraethu Clinigol yn ymdrin â materion beunyddiol llywodraethu ymchwil. Cyflwynir adroddiadau chwarterol am weithgaredd a llywodraethu ymchwil i'r Pwyllgor Llywodraethu Clinigol. Mae'r Bwrdd yn ystyried cofnodion y cyfarfodydd hyn.

S13.3. Nododd y BILI yn eu cyflwyniad nad oes systemau cyfathrebu ffurfiol ar gael. Y mae gwaith anffurfiol yn cael ei wneud, megis poster a anfonwyd at bob contractwr gofal sylfaenol yn gofyn iddynt hysbysu'r BILI os ydynt yn ymwneud ag ymchwil. Hysbysir y Cydlynnydd Llywodraethu Clinigol, sydd yn gallu gwneud yn siŵr fod y gweithdrefnau wedi eu dilyn. Gwelwyd yn ystod yr ymweliad Fframwaith Ansawdd a Deilliannau (FfAD) fod sgiliau mantoli critigol wedi bod yn bwnc hyfforddi i feddygon teulu.

S13.5. Er ein bod yn medru cytuno gydag asesiad y BILI o **Ddatblygu** ar y lefelau Corfforaethol a Phrofiad y Defnyddiwr, yr ydym yn ystyried fod y BILI yn **Ymateb** ar y lefel Weithredol/Deilliannau Clinigol am y rhesymau a nodwyd parthed cyfathrebu a hyfforddiant.

4.3. Llywodraethu Gofal Iechyd

Safon 14

Mae sefydliadau gofal iechyd yn gyson ac yn systematig yn adolygu a gwella pob agwedd o'u gweithgareddau sydd yn effeithio'n uniongyrchol ar iechyd a diogelwch cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, staff a'r cyhoedd. Nid yn unig y byddant yn cydymffurfio â deddfwriaeth, ond yn cymhwyso'r arferion gorau wrth asesu a rheoli risg.

S14.1. Asesodd y BILI ei hun fel yn **Arfer** ar y lefelau Corfforaethol, Gweithredol/Deilliannau Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S14.2. Medrodd y BILI ddangos eu bod yn cymryd camau tuag at y safon hon trwy'r canlynol:

- Gweithredu Polisi Iechyd a Diogelwch sydd yn nodi llinellau cyfrifoldeb yn y sefydliad am iechyd a diogelwch a'r trefniadau sydd ar gael.
- Gweithredu Strategaeth Rheoli Risg sydd yn rhoi manylion am sut y rheolir risg.
- Adroddiadau rheolaidd i'r Bwrdd am y gofrestr risg a chynlluniau gweithredu.

S14.3. Mae staff yn ymwybodol o ofynion deddfwriaethol a'r arferion gorau mewn rheoli risg trwy'r hyfforddiant cynefino. Mae hyfforddiant hefyd yn cael ei roi ar ddiogelu data, Caldicott, Iechyd a Diogelwch ac Adrodd am Ddigwyddiadau yn ystod cyfarfodydd tîm. Mae canllaw ar gael i'r staff mewn perthynas â'r broses rheoli risg ac yn ddiweddar, cynhaliwyd dadansoddiad anghenion hyfforddi gan y BILI i ganfod gofynion datblygu'r staff. Darparwyd gwybodaeth am Iechyd a Diogelwch i bob contractwr, sydd yn gosod allan ganllawiau am ofynion deddfwriaethol ac arferion da.

S14.4. Yr ydym yn cytuno gydag asesiad y BILI o **Arfer** ar lefel Profiad y Defnyddiwr, ond yn ystyried eu bod yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol a Gweithredol/Deilliannau Clinigol.

Safon 15

Mae sefydliadau gofal iechyd, gan gydnabod anghenion iaith a chyfathrebu gwahanol, yn gofalu y gall cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, perthnasau a gofalwyr wneud y canlynol:

- a. rhoi ymateb am eu profiadau ac ansawdd gwasanaethau;*
- b. gael trin eu cwynion yn brydlon a thrwyadl yn unol â'r gweithdrefnau cwynion;*
- c. cael gwybodaeth am gefnogaeth eiriol ym maes cwynion a ddarperir gan Gyngorau Iechyd Cymuned yng Nghymru; a*
- d. derbyn sicrwydd fod sefydliadau yn gweithredu ar unrhyw bryderon ac yn gwneud newidiadau priodol i sicrhau gwelliannau o ran cyflwyno gwasanaethau.*

S15.1. Asesodd y BILI ei hun fel yn **Arfer** ar y lefelau Corfforaethol a Gweithredol/ Deilliannau Clinigol ac yn **Datblygu** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S15.2. Medrodd y BILI ddangos eu hymrwymiad i sicrhau y gall cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, perthnasau a gofalwyr roi ymateb am eu profiadau. Ymysg y prosesau mae:

- Y broses gwynion a hysbysebwr ar wefan y BILI.
- Dosbarthu taflen gwynion ledled gwahanol sefydliadau gan gynnwys llyfrgelloedd a'r sector wirfoddol.
- Canllaw lleol ar 'Wella Iechyd yng Nghymru' sydd ar gael yn ddwyieithog, ac mewn ieithoedd a fformatau eraill o wneud cais.
- Cytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG) gyda language line i ddarparu gwasanaethau cyfieithu.
- Monitro cwynion yn chwarterol o ran tueddiadau a gwersi a ddysgwyd. Fodd bynnag, nid yw'r BILI yn dadansoddi cwynion ar sail hil nac anabled.

S15.3. Mae mecanweithiau ar gael i gleifion, defnyddwyr gwasanaeth, perthnasau a gofalwyr roi ymateb. Hefyd, anfonir holiaduron boddhad cwynion at bob unigolyn a wnaeth gŵyn ar ôl i'r gŵyn honno gael ei datrys, yn gofyn am ymateb am eu profiadau. Amlygodd cleifion a fu mewn grŵp ffocws eu bod yn ystyried y cafwyd gwelliannau yn nhrefn ymateb a mecanweithiau'r BILI.

S15.4. Gallwn gytuno gydag asesiad y BILI eu bod yn **Datblygu** ar lefel Profiad y Defnyddiwr ac ystyriwn hefyd eu bod yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol a Gweithredol/Deilliannau Clinigol am fod cymhwyso ymarferol yn digwydd ar draws y sefydliad ond dim tystiolaeth o wella cyson.

Safon 16

Mae gan sefydliadau gofal iechyd systemau i wneud y canlynol:

- a. nodi a dysgu o bob digwyddiad yn ymwneud â diogelwch cleifion a digwyddiadau eraill y dylid adrodd amdanynt;*
- b. rhoi adroddiad am ddigwyddiadau i System Genedlaethol Adrodd a Dysgu yr Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion (AGDC) a chyrrff eraill yn unol â'r canllawiau sydd yn bod eisoes;*
- c. dangos gwelliannau mewn arfer seiliedig ar rannu profiad lleol a chenedlaethol a gwybodaeth sy'n deillio o ddadansoddi digwyddiadau;*
a
- d. gofalu y gweithredir ar hysbysiadau diogelwch cleifion, rhybuddion a dulliau eraill o gyfathrebu am ddiogelwch o fewn y terfynau amser angenrheidiol.*

S16.1. Asesodd y BILI ei hun fel yn **Datblygu** ar y lefel Gorfforaethol ac yn **Arfer** ar y lefelau Gweithredol/Deilliannau Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S16.2. Medrodd y BILI ddangos eu bod yn cymryd camau i ymdrin â'r safon hon fel a ganlyn:

- Mae gweithdrefn adrodd am ddigwyddiadau ar gael.
- Rhoddir adroddiad i'r AGDC pan dderbynnir hwy gan y BILI.
- Mae'r Bwrdd yn derbyn adroddiadau rheolaidd am ddigwyddiadau. Y Cyd-Grŵp Cwynion ac Adolygu Digwyddiadau sydd yn gyfrifol am adolygu adroddiadau am ddigwyddiadau, tueddiadau a newidiadau a wnaed, gan gynnwys lledaenu'r gwersi a ddysgwyd.
- Hwylusydd Llywodraethu Clinigol y BILI sydd yn gyfrifol am ymdrin â digwyddiadau, a dosberthir hysbysiadau Diogelwch Cleifion i holl aelodau'r Bwrdd, staff a chontractwyr.
- Yr Is-Grŵp Effeithiolrwydd Clinigol sydd yn gyfrifol am adolygu, gweithredu a dosbarthu canllawiau clinigol cenedlaethol megis rhybuddion NICE ac AGDC.

S16.3. Mae'r BILI yn darparu hyfforddiant i'w staff ar asesu risg, adrodd am ddigwyddiadau a dadansoddiad o wraidd yr achos. Mae staff yn cael rhestr o bobl i gysylltu â hwy am ganllawiau a chefnogaeth petai rhywbeth yn digwydd, ac anogir hwy i ymchwilio i'r digwyddiad a'i raddio yn unol â Strategaeth Rheoli Risg y BILI . Mae'r BILI hefyd yn lledaenu gwersi lleol a chenedlaethol i staff a chontractwyr.

S16.4. Ar ein hymweliad arsylwi, cafwyd cadarnhad fod llawer o'r mecanweithiau hyn ar gael, fod y staff yn ymwybodol o'r prosesau ffurfiol ar gyfer codi pryderon, a bod strwythur ar gael i rannu gwybodaeth, e.e. gwersi a ddysgwyd.

S16.5. Yr ydym yn cytuno gydag asesiad y BILI o **Ddatblygu** ar y lefel Gorfforaethol ac **Arfer** ar y lefelau Gweithredol/Deilliannau Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

Safon 17

Mae sefydliadau gofal iechyd yn cydymffurfio â chanllawiau cenedlaethol amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed yn eu gweithgareddau eu hunain ac yn eu hymwneud â sefydliadau eraill.

S17.1. Asesodd y BILI ei hun fel yn **Arfer** ar y lefel Gorfforaethol ac yn **Datblygu** ar y lefelau Gweithredol/Deilliannau Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S17.2. Medrodd y BILI ddangos eu bod yn cymryd camau i ymdrin â'r safon hon, ac ymysg y camau mae:

- Cymeradwyo a gweithredu nifer o bolisiâu ynghylch amddiffyn plant, gan gynnwys polisiâu lleol a Chymru Gyfan, er enghraifft Diogelu Plant, Strategaeth Amddiffyn Plant a Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan.
- Cyflwyno canllaw Trefniadau Amddiffyn Plant mewn practis deintyddol.
- Mabwysiadu Protocolau Fforwm Amddiffyn Plant Gogledd Cymru i hybu rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau.
- Cyfarfodydd chwarterol y Pwyllgor Amddiffyn Plant.
- Meddyg dynodedig i Amddiffyn Plant.
- Polisi a gymeradwywyd gan y Bwrdd ar Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed (AOAN).

S17.3. Y Cyfarwyddwr Nyrsio yw cynrychiolydd y BILI ar y Bwrdd Lleol Diogelu Plant a grŵp Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed Sir Ddinbych . Mabwysiadodd y BILI y Strategaeth Hyfforddi Amddiffyn Plant, ac y mae hyfforddiant Amddiffyn Plant ar gael ar dair lefel. Mae staff yn ymwybodol o'r gofynion mewn perthynas ag AOAN trwy ddosbarthu'r polisïau a'r gweithdrefnau priodol, cyfarfodydd strategaeth oedolion agored i niwed, a dosbarthu cofnodion y cyfarfodydd hyn.

S17.4. Fel rhan o'n hymweliad arsylwi, yr oedd gofyn i'r BILI lenwi gwiriad cofnodion y Swyddfa Cofnodion Troseddol a hyfforddi ar gyfer staff gweithredol y BILI; yr oed dhyn yn cynnwys hyfforddiant amddiffyn plant ac AOAN. Gwelwyd o'n hymweliad fod nifer o staff wedi derbyn hyfforddiant amddiffyn plant ond ni roddwyd unrhyw wybodaeth am hyfforddiant AOAN. Yr ydym yn cytuno gydag asesiad y BILI o **Arfer** ar y lefel Gorfforaethol a **Datblygu** ar y lefelau Gweithredol/Deilliannau Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr lefelau.

Safon 18

Mae sefydliadau gofal iechyd wedi cynllunio a pharatoi, a lle bo angen, wedi ymarfer, ymateb trefnus i ddigwyddiadau ac argyfyngau, a allai effeithio ar ddarparu'r gwasanaethau arferol.

S18.1. Asesodd y BILI ei hun fel yn **Arfer** ar y lefel Gorfforaethol ac yn **Datblygu** ar y lefelau Gweithredol/Deilliannau Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S18.2. Medrodd y BILI ddangos eu bod yn cymryd camau i ymdrin â'r safon trwy'r dulliau a ganlyn:

- Mabwysiadu Cynllun Digwyddiad Mawr Gogledd Cymru.
- Cyflwyno cynllun datblygu gan Swyddogion Arweiniol a Swyddogion Cynllunio Argyfwng i wneud yn sicr y gallai BILI ymateb i her fyddai'n tarfu arnynt yn sylweddol.
- Darparu adnoddau, cefnogaeth a gwybodaeth gan GICC.

S18.3. Gall y staff hefyd fynd at ystod o hyfforddiant a ffug-ymarferion. Cysylltodd y BILI ag ymarferiad 'Winter Willow' oedd yn ymdrin â sefyllfa o Bandemig Ffliw. Mae'r gwersi a ddysgwyd wedi eu hymgorffori i'r Cynllun Gweithredol Pandemig Ffliw.

S18.4. Yr ydym felly yn ystyried bod y BILI yn **Datblygu** ar bob lefel gan nad oedd tystiolaeth o wella cyson.

Safon 19

Mae sefydliadau gofal iechyd yn sicrhau bod:

- a. pob risg sy'n gysylltiedig â chael a defnyddio dyfeisiadau meddygol yn cael eu lleihau;*
- b. pob dyfais feddygol yn cael eu dadlygru yn iawn cyn eu defnyddio ac y caiff y risg sy'n gysylltiedig â chyfleusterau a phrosesau dadlygru eu rheoli'n dda;*
- c. materion ansawdd a diogelwch meddyginiaethau yn cael eu rheoli; a*
- d. rheolir atal, ynysu, trin, cludo a gwaredu gwastraff fel ag i leihau risg i iechyd a diogelwch staff, cleifion, y cyhoedd a diogelwch yr amgylchedd.*

S19.1. Asesodd y BILI ei hun fel yn **Datblygu** ar y lefel Gorfforaethol ac yn Arfer ar y lefelau Gweithredol/Deilliannau Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S19.2. Buddsoddodd y BILI mewn cyfarpar ar gyfer meddygfeydd a chawsant sicrwydd gan y Rhaglen Ymweld Llywodraethu Clinigol eu bod yn cydymffurfio â'r Safonau Cenedlaethol.

S19.3. Mae'r BILI wedi derbyn sicrwydd trwy'r Pwyllgor Llywodraethu a Rheoli Clinigol fod prosesau ar gael i drin â chael a defnyddio dyfeisiadau meddygol. Mae'r Cyfarwyddwr Meddygol yn aelod o'r ddau bwyllgor. Sefydlodd y BILI hyfforddiant Rheoli Haint ac Iechyd a Diogelwch i'r holl staff a chontractwyr; y mae hyn yn ymgorffori croes-heintio a dadlygru dyfeisiadau meddygol.

S19.4. Cyfrifoldeb clinigol uniongyrchol cyfyngedig sydd gan y BILI dros ragnodi a rheoli meddyginiaethau, er eu bod yn rhoi cyfarwyddyd i'r contractwyr annibynnol. Mae gan y BILI bolisi ffurfiol sydd yn ymdrin â pherthynas gyda'r diwydiant fferyllol a strategaeth rheoli meddyginiaethau. Hefyd, cynhelir cyfarfodydd rhagnodi'r practis bob pedwar mis gyda phob practis, a defnyddir y rhain fel fforymau i drafod canllawiau a'u gweithredu.

S19.5. Mae'r BILI yn gyfrifol am sicrhau fod gwastraff a gynhyrchir gan rai contractwyr yn cael ei waredu yn gywir. Cyfarfu'r BILI ag Asiantaeth yr Amgylchedd ac y mae ganddynt gontract i ofalu fod gwastraff fferyllol yn cael ei waredu yn unol â deddfwriaeth. Cyhoeddodd y BILI hefyd ganllawiau i fferyllfeydd. Mae contractwyr yn gyfrifol am hyfforddi eu staff eu hunain, er bod y BILI yn rhoi hyfforddiant cyfoesi yn dilyn unrhyw newid mewn deddfwriaeth.

S19.6. Ystyriwn y BILI yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol a Gweithredol/Deilliannau Clinigol ac yn **Arfer** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

Safon 20

Mae sefydliadau gofal iechyd yn gweithio i wella gofal cleifion ac i wella yn barhaus foddhad y staff trwy ddarparu'r arfer gorau o ran rheoli adnoddau dynol.

S20.1. Asesodd y BILI ei hun fel yn **Arfer** ar y lefelau Corfforaethol, Gweithredol/Deilliannau Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S20.2. Mae'r BILI wedi ymrwymo i sicrhau fod prosesau rheoli adnoddau dynol cadarn ar gael, yn benodol:

- Mae'r Bwrdd yn gosod prif amcanion i'r Prif Weithredwr dros gyfnod o dair blynedd; caiff y rhain eu hadolygu a'u mireinio yn flynyddol.
- Mae aelodau'r staff ar hyn o bryd yn cwblhau'r Fframwaith Sgiliau Gwybodaeth (FfSG) yn unol ag Agenda Newid.
- Cynhelir Dadansoddiad Anghenion Hyfforddi i nodi manau ar gyfer datblygu.
- Mabwysiadu polisi AD 'Tegwch yn y Gwaith BILI Cymru Gyfan' .
- Mae'r fforwm Staff yn craffu ar bolisiâu a gweithdrefnau a chaiff sylwadau eu bwydo i'r broses ymgynghori.

S20.3. Cynhaliodd y BILI arolwg staff a gwnaed nifer o newidiadau i wella gwaith beunyddiol y sefydliad o ganlyniad i fentrau gan y staff. Yn eu plith mae hyfforddiant ar reoli meddyginiaethau i ofalwyr, sefydlu Fforwm Nyrsys Sir Ddinbych a chyfoesi gwybodaeth mewn perthynas â Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol y Tu Allan i Oriau ar wefannau asiantaethau sy'n bartneriaid. Anogir y staff hefyd i wneud gwelliannau trwy fforymau staff.

S20.4. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu hannog i wella gwasanaethau ac y gallant ddylanwadu ar newidiadau mewn gwasanaethau. Yr ydym yn cytuno ag asesiad y BILI o **Arfer** ar y lefel Gorfforaethol ond ystyriwn mai **Datblygu** y maent ar y lefelau Gweithredol/Deilliannau Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr gan nad oes tystiolaeth o wella cyson.

Safon 21

Mae sefydliadau gofal iechyd:

- a. *yn gwneud yr holl wiriadau cyflogaeth angenrheidiol ac yn gofalu fod staff cyflogedig neu rai sydd wedi eu contractio yn broffesiynol wedi eu cofrestru gyda'r cyrff perthnasol;*
- b. *yn gofyn i bob gweithiwr proffesiynol cyflogedig gadw at eu codau arfer ac ymddygiad proffesiynol cyhoeddedig*
- c. *ymdrin, lle bo hynny'n briodol, â than-gynrychiolaeth grwpiau lleiafrifol.*

S21.1. Asesodd y BILI ei hun fel yn **Arfer** ar y lefel Gorfforaethol a **Datblygu** ar y lefelau Gweithredol/Deilliannau Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr lefelau.

S21.2. Medrodd y BILI ddangos eu bod yn cymryd camau i ymdrin â'r safon hon fel a ganlyn:

- Cynhelir holl recriwtio a dethol y BILI trwy'r Ganolfan Gwasanaeth Busnes (CGB), a'r Weithdrefn Weithredu Safonol (GWS) a ddatblygwyd gan Adnoddau Dynol (AD).
- Rhaid i ddeintyddion a meddygon sydd eisiau darparu gwasanaethau wneud cais i gael eu cynnwys ar y rhestr perfformwyr meddygol neu ddeintyddol.
- Yn y tîm Nyrsio, datblygwyd cronfa ddata i gofnodi gwybodaeth sy'n ymwneud â phob nyrs gofrestredig yn y BILI.
- Mae manylion agweddau cydraddoldeb ac amrywiaeth cyflogaeth ym mholisiâu AD y BILI.

S21.3. Cydnabuwyd y BILI gan Ganolfan Byd Gwaith am eu hymrwymiad i egwyddorion cydraddoldeb fel cyflogwr. Derbyniodd yr Arwydd Tic Dwbl Anabledd a roddir i gyflogwyr sydd wedi cytuno i weithredu i ateb y pum ymrwymiad o ran cyflogi, cadw, hyfforddi a datblygu gyrfaoedd gweithwyr anabl.

S21.4. Yn ystod ein hymweliad arsylwi llwyddasom i gadarnhau fod gwiriadau SCT wedi eu gwneud ar gyfer yr holl staff gweithredol.

S21.5. Ystyriwn fod y BILI yn **Datblygu** ar bob lefel gan nad yw ymateb y BILI yn dangos fod mecanweithiau sicrwydd y Bwrdd yn eu lle ar gyfer y safon hon.

Safon 22

Mae sefydliadau gofal iechyd yn gwneud yn siŵr fod staff:

- a. yn cael eu recriwtio, hyfforddi a'u cymhwyso yn briodol ar gyfer y gwaith y maent yn ei wneud;*
- b. yn cymryd rhan mewn rhaglenni hyfforddi cynefino a gorfodol; ac*
- c. yn cymryd rhan mewn datblygu proffesiynol a galwedigaethol parhaus.*

S22.1. Asesodd y BILI ei hun fel yn **Arfer** ar y lefelau Corfforaethol, Gweithredol/Deilliannau Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S22.2. Dilyniir Polisi a Gweithdrefnau Recriwtio a Dethol Cymru Gyfan ar gyfer pob penodiad gyda'r BILI. Cynhelir Dadansoddiad Anghenion Hyfforddi i'r holl staff er mwyn nodi meysydd datblygu, naill ai'n unigol neu ar y cyd. Mae meddygon teulu yn cael eu hadolygu fel rhan o'r broses Fframwaith Ansawdd a Deilliannau (FfAD). Mae Is-grŵp Hyfforddi a datblygu mewn bodolaeth ac y mae'n bwydo i mewn i'r Pwyllgor Llywodraethu Clinigol.

S22.3. Bydd yr holl staff yn cael eu mantoli'n flynyddol. Wedi'r mantoli, mae pob aelod o staff yn cynhyrchu cynllun datblygu blynyddol y cytunir arno gyda rheolwyr llinell. Mae hwn yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau, a chaiff cynnydd ei fesur mewn cyfarfod canol blwyddyn. Mae'r staff yn cael eu hannog i ddilyn hyfforddiant a chânt eu cyllido am hyfforddiant megis Graddau Meistr a dysgu Cymraeg. Mae angen i'r holl staff gwblhau hyfforddiant gorfodol ar-lein ar iechyd a diogelwch, risg tân a thrin a chodi ac y mae staff a chontractwyr BILI hefyd yn derbyn calendr hyfforddi a datblygu i godi eu hymwybyddiaeth o ddigwyddiadau addas.

S22.4. Cadarnhaodd ein hymweliad arsylwi fod gan yr holl staff Gynllun Datblygu Personol (CDP) a bod hyfforddi a datblygu yn cael ei nodi trwy hwn. Mae'r staff yn

cael eu cefnogi i ddatblygu yn bersonol ac y maent yn ystyried fod y BILL yn eu cefnogi.

S22.5. Ystyriwn fod y BILL yn **Datblygu** ar y tair lefel am fod tystiolaeth o gymhwyso ymarferol ar draws y sefydliad, er nad oes tystiolaeth arwyddocaol o wella cyson.

Safon 23

Mae sefydliadau gofal iechyd yn sicrhau fod y staff yn cael eu cefnogi trwy'r canlynol:

- a. prosesau sy'n caniatáu iddynt, yn gyfrinachol a heb ragfarnu eu sefyllfa, godi pryderon am unrhyw agwedd o gyflwyno gwasanaeth, triniaeth neu reoli; a*
- b. rhaglenni datblygu personol a sefydliadol sydd yn cydnabod cyfraniad a gwerth staff.*

S23.1. Asesodd y BILL ei hun fel yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol, Gweithredol/ Deilliannau Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S23.2. Medrodd y BILL ddangos ei fod yn cymryd camau i ymdrin â'r safon hon fel a ganlyn:

- Polisi Codi Pryderon.
- Penodi hyrwyddwr penodedig canu cloch sy'n aelod o'r Bwrdd ond heb fod yn swyddog.

S23.3. Trafodir y polisi Codi Pryderon fel rhan o raglen gynefino'r BILL a'r Rhaglen Gynefino Llywodraethu Clinigol i gontractwyr a'u staff. Mae cyfrinachedd y fforwm staff yn absoliwt fel bod gan staff sicrwydd y gellir codi pryderon heb i neb wybod pwy wnaeth hynny.

S23.4. Medrwn felly gytuno ag asesiad y BILL o **Ddatblygu** ar bob lefel.

Safon 24

Mae sefydliadau gofal iechyd yn gweithio ynghyd â gofal cymdeithasol a phartneriaid eraill i ateb anghenion iechyd eu poblogaeth fel a ganlyn:

- a. bod â gweithlu gyda'r cymysgedd priodol o sgiliau ar draws y gymuned;*
a
- b. sicrhau gwelliant cyson mewn gwasanaethau trwy well ffyrdd o weithio*

S24.1. Asesodd y BILI ei hun fel yn **Arfer** ar y lefelau Corfforaethol, Gweithredol/Deilliannau Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S24.2. Medrodd y BILI ddangos eu bod yn cymryd camau i ymdrin â'r safon hon fel a ganlyn:

- Datblygwyd Partneriaethau Allweddol gyda Bwrdd Iechyd Lleol Sir Ddinbych, partneriaethau strategol Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles, Fframwaith Plant ba Phobl Ifanc a Phartneriaeth Diogelwch Cymunedol.
- Partneriaeth mewn nifer o fentrau lleol gan gynnwys "Strategaeth y Rhyl yn Symud Ymlaen" a "Strategaeth Dinas y Rhyl".
- Sefydlu grŵp rheoli "Codi Pontydd Cryfach" .
- Datblygu ail strategaeth IGCLI ar gyfer 2008-2011 mewn partneriaeth â'r Awdurdod Lleol.
- Cymryd rhan mewn ystod o grwpiau cynllunio a chomisiynu partneriaeth gan gynnwys Grŵp Cynllunio Iechyd Meddwl Sir Ddinbych, tîm Gweithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau a'r gweithgor AOAN.

S24.3. Mae'r BILI yn rhan o weithgor cynllunio aml-asiantaethol sydd yn is-grŵp o'r bartneriaeth IGCLI. Mae'r Strategaeth Gofal Canolraddol a'r Strategaeth Rheoli Clefydau yn ddwy esiampl o fentrau ar y cyd a ddatblygwyd ac y cytunwyd arnynt rhwng ystod o bartneriaid sydd yn cynnwys cynllunio gweithlu. Cafwyd mentrau ar y cyd hefyd rhwng partneriaid iechyd, gofal cymdeithasol ac eraill sydd yn canoli ar flaenoriaethau allweddol a nodwyd gan y BILI, yr Awdurdod Lleol a phartneriaid eraill. Arweiniodd y BILI ar sefydlu swydd Rheolwr Strategol Gyd-Gomisiynu a strategaeth cyd-gomisiynu ar gyfer camddefnyddio sylweddau.

S24.4. Mae Profiad y Defnyddiwr wedi gwella trwy newidiadau i brosesau gwaith mewn gwasanaethau iechyd meddwl, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (GIMPPH), lleihau amseroedd aros a gweithredu gwasanaeth eiriol.

S24.5. Yr ydym yn cytuno gydag asesiad y BILI o **Arfer** ar y lefel Gorfforaethol ond ystyriwn fod y BILI yn **Datblygu** ar y lefelau Gweithredol/Deilliannau Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr gan nad oes gwelliant cyson ar draws y sefydliad.

Safon 25

Mae sefydliadau gofal iechyd yn defnyddio systemau gwybodaeth effeithiol a thechnoleg gwybodaeth integredig i gefnogi a gwella gofal i gleifion, ac wrth gomisiynu a chynllunio gwasanaethau.

S25.1. Asesodd y BILI ei hun fel yn **Arfer** ar y lefelau Corfforaethol a Gweithredol/Deilliannau Clinigol a **Datblygu** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S25.2. Medrodd y BILI ddangos eu bod yn cymryd camau i ymdrin â'r safon hon fel a ganlyn:

- Strategaeth TG&Rh.
- Grŵp TG&Rh sydd yn bwydo i mewn i'r Pwyllgor Llywodraethu Clinigol .
- Mabwysiadu nifer o bolisiâu sydd yn gofalu bod systemau effeithiol ar gael, megis y polisi diogelwch TG&Rh, Rhyngrwyd Gogledd Cymru a pholisiâu e-bost a Pholisi Rhyddid Gwybodaeth.

S25.3. Mae gan y BILI gynllun hyfforddi a datblygu cynhwysfawr i staff y BILI a staff contract meddygon teulu. Mae meddygfeydd meddygon teulu yn hyfforddi staff ar raglen dreigl ac yn cysylltu â'r CGB i ofalu bod yr hyfforddiant cyfoes yn digwydd. Mae hyfforddiant yn y BILI yn cael ei roi trwy gyfarfodydd tîm a chyfarfodydd cyfarwyddiaethau, gyda hyfforddiant penodol i wybodaeth hefyd ar gael. Mae diogelwch hefyd yn agwedd bwysig a chyflwynir adroddiadau diogelwch rheolaidd trwy'r Ganolfan Gwasanaethau Busnes (CGB). Mae gofyn i'r holl staff lofnodi'r Polisiâu Diogelwch TG&Rh a gofynnir i staff dros dro lofnodi cytundeb cyfrinachedd a diogelwch.

S25.4. Mae'r BILI yn gweithio'n agos gyda Gofal Sylfaenol ac Eilaidd i sicrhau cysondeb a chywirdeb manylion cleifion. Mae rhaglen dreigl dair blynedd ar gael i fapio gwybodaeth lle gellir adnabod cleifion.

S25.5. Ystyriwn fod y BILI yn **Datblygu** ar bob lefel am fod cymhwysio ymarferol yn digwydd ar draws y sefydliad ond dim tystiolaeth o wella cyson.

Safon 26

Mae gan sefydliadau gofal iechyd brosesau rheoli cofnodion effeithiol i sicrhau'r canlynol:

- a. *o'r ennyd y creir cofnod nes y caiff ei waredu, mae'r sefydliad yn cadw gwybodaeth fel ei fod yn gwneud yr hyn y casglwyd ef er ei fwyn ac yn cael gwared ohono yn briodol pan na fydd ei angen bellach; a*
- b. *cynnal cyfrinachedd cleifion.*

S26.1. Asesodd y BILI ei hun fel yn **Arfer** ar y lefelau Corfforaethol, Gweithredol/Deilliannau Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S26.2. Medrodd y BILI eu bod yn cymryd camau i ymdrin â'r safon hon fel a ganlyn:

- Mae Polisi Rheoli Cofnodion ar gael ynghyd â gweithdrefnau RhG, Diogelu Data, mynediad at gofnodion iechyd a threfniadau hafan ddiogel.
- Nodwyd y Cyfarwyddwr Meddygol fel Gwarcheidwad Caldicott y BILI.

S26.3. Caiff staff newydd hyfforddiant mewn rheoli cofnodion fel rhan o'u hyfforddiant cynefino. Ceir hefyd sesiynau hyfforddi ac ymwybyddiaeth rheolaidd i'r staff trwy sesiynau briffio staff. Mae rheoli cofnodion yn cael ei fonitro trwy'r dangosyddion perfformiad allweddol strwythuredig bob chwe mis; rhoddir adroddiad wedyn amdanynt i'r grŵp TG&Rh. Cyflwynir adrodd TG&Rh blynyddol i'r Bwrdd. Mae sesiynau "clirio" corfforaethol yn cael eu cynnal bob chwe mis i annog rheolaeth dda ar gofnodion a chydymffurfio â'r polisi.

S26.4. Nid oedd tystiolaeth o wella cyson ar draws y sefydliad. Yr ydym felly yn ystyried bod y BILI yn **Datblygu** ar y tair lefel.

Safon 27

Mae trefniadau llywodraethu ar gael sydd yn cynrychioli'r arferion gorau ac yn gwneud yr isod:

- a. *cymhwysio egwyddorion llywodraethu clinigol a chorfforaethol cadarn;*
- b. *sicrhau rheolaeth ac atebolrwydd ariannol cadarn wrth ddefnyddio adnoddau;*

- c. *rhoi cefnogaeth bendant i bob gweithiwr i hybu bod yn agored, gonestrwydd, cywirdeb, atebolrwydd a defnydd economaidd, effeithlon ac effeithiol o adnoddau;*
- d. *cynnwys asesu risg systematig a rheoli risg; ac*
- e. *wedi eu hintegreiddio ar draws yr holl gymunedau a rhwydweithiau iechyd.*

S27.1. Asesodd y BILI ei hun fel yn **Arfer** ar y lefelau Corfforaethol, Gweithredol/Deilliannau Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S27.2. Medrodd y BILI ddangos eu bod yn cymryd camau i ymdrin â'r safon hon fel a ganlyn:

- Y tri phwyllgor statudol: y Pwyllgor Archwilio, Pwyllgor Llywodraethu Clinigol a'r Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth.
- Mae pob un o Bwyllgorau'r BILI yn cael eu cadeirio gan Aelod o'r Bwrdd nad yw'n swyddog.
- Rhoddwyd Safonau Cynnal Busnes i'r holl staff er mwyn gwneud yn siŵr fod yr holl weithgareddau yn cael eu cynnal yn briodol.
- Y Polisi Codi Pryderon.
- Gweithredu trefniadau rheoli risg effeithiol. Daw sicrwydd am y trefniadau rheoli risg o waith yr archwilwyr mewnol ac allanol.
- Mabwysiadu strategaeth Rheoli Risg sydd yn diffinio trin a rheoli risg ac yn adrodd am y prif risgiau i'r Bwrdd fel bod modd monitro sut y mae'r sefydliad yn ymateb i risg ac yn ei reoli.

S27.3. Mae'r staff yn ymwybodol o'r trefniadau adrodd llywodraethol a gwahoddir y staff, gan gynnwys staff contractwyr, i gyflwyniad undydd ar lywodraethu clinigol. Mae'r holl bolisiâu llywodraethu ar gael ac yn cael eu cadw ar y cyfeiriadur cyffredinol. Gwnaeth y BILI waith i sicrhau bod y trefniadau llywodraethu yn glir ac yn eu lle ond ystyriwn fod y BILI yn **Arfer** ar dair lefel y safon hon.

Safon 28

Mae sefydliadau gofal iechyd yn gwneud y canlynol:

- a. gofalu bod egwyddorion llywodraethu clinigol yn sail i waith pob tîm a gwasanaeth clinigol;*
- b. bod â chylch o wella ansawdd cyson, gan gynnwys archwilio clinigol; a*
- c. sicrhau arweiniad clinigol a rheolaethol ac atebolrwydd effeithiol.*

S28.1. Asesodd y BILI ei hun fel yn **Arfer** ar y lefelau Corfforaethol, Gweithredol/Deilliannau Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr lefelau.

S28.2. Mae Strategaeth Llywodraethu Clinigol a Chynllun Treigl o Ddatblygu Llywodraethu Clinigol a gymeradwywyd ar y cyd rhwng Conwy a Sir Ddinbych ar gael. Fel rhan o'r strwythur Llywodraethu Clinigol sefydlwyd nifer o grwpiau sydd yn adrodd yn uniongyrchol i'r Pwyllgor Llywodraethu Clinigol. Mae'r rhain yn cynnwys y Grŵp Adolygu Cwynion a Digwyddiadau ac Chyd-Is-Grŵp Archwilio Clinigol BILI Conwy a Sir Ddinbych.

S28.3. Datblygir Strategaethau, Polisiâu a Gweithdrefnau trwy ymgynghori â'r staff. Cynhyrchir u Cynllun Datblygu Llywodraethu Clinigol gan y Tîm Llywodraethu Clinigol ar y Cyd, ac er ei fod yn cael ei fonitro gan y Pwyllgor Llywodraethu Clinigol sydd yn cynnwys aelodau o gyfarwyddiaethau eraill, nid ydynt hwy yn ymwneud yn uniongyrchol â'i ddatblygu. Datblygodd BILI Conwy a BILI Sir Ddinbych mewn partneriaeth â'u practis Broses Flynyddol o Adolygu Ansawdd oedd yn ymgorffori Hunanasesiad Practis Llywodraethu Clinigol sydd yn caniatáu i'r practis nodi ei gryfderau a'i wendidau. Yna, datblygir cynlluniau gwella, a'u monitro. Datblygwyd prosesau tebyg ar gyfer deintyddiaeth a fferylliaeth. Yr ydym felly yn ystyried bod y BILI yn **Arfer** ar y tair lefel.

4.4. Iechyd y Cyhoedd

Safon 29

Mae sefydliadau gofal iechyd yn hybu, amddiffyn ac yn amlwg yn gwella iechyd y gymuned a wasanaethir ac yn lleihau anghydraddoldebau iechyd fel a ganlyn:

- a. cydweithio a gweithio mewn partneriaeth gydag awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill i ddatblygu, gweithredu a gwerthuso strategaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles; a*
- b. sicrhau fod asesiadau anghenion a chyngor cadarn ar iechyd y cyhoedd yn sail i'w polisiau a'u harferion.*

S29.1. Asesodd y BILI ei hun yn **Arfer** ar y lefelau Corfforaethol, Gweithredol/Deilliannau Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S29.2. Medrodd y BILI ddangos eu bod yn cymryd camau i ymdrin â'r safon hon fel a ganlyn:

- Strwythur Partneriaeth Strategol y Bwrdd a nifer o bartneriaethau eraill sydd bellach ar waith.
- Bu'r GICC yn ymwneud â'r Strategaeth IGCLI yn ystod y broses Asesu Anghenion a hefyd wrth ddatblygu'r strategaeth.
- Mae'r TLIC dan arweiniad y Cyfarwyddwr yn cydgordio gweithgareddau iechyd cyhoeddus ar draws Conwy a Sir Ddinbych.
- Caiff y Bwrdd wybodaeth am faterion allweddol lleol a chenedlaethol Datblygu Gwarchod Lleol yn rheolaidd.
- Trwy'r broses bartneriaeth, cytunwyd ar flaenoriaethau megis y rhai sy'n ymwneud â phlant, pobl ifanc a theuluoedd a phobl hŷn.
- Ceir adroddiad am y Strategaeth IGCLI trwy Fwrdd Strategol y Bartneriaeth a'r Grŵp Swyddogion Arweiniol.

S29.3. I sicrhau cysondeb ar draws Conwy a Sir Ddinbych, sefydlwyd grŵp art y cyd i gydgordio materion imiwneiddio. Mae'r grŵp yn adrodd i Fwrdd Strategol y Bartneriaeth ac y mae dan arweiniad Cyfarwyddwr Lleol cysylltiol Iechyd y Cyhoedd.

S29.4. Ystyriwn fod y BILI yn **Datblygu** ar lefel Profiad y Defnyddiwr. Mae'r ymateb yn rhoi manylion am y Cytundeb Lefel Gwasanaeth sydd ar gael, ond nid yw'n

adlewyrchu gweddill y Safon. Fodd bynnag, yr ydym yn cytuno ag asesiad y BILI eu bod yn **Arfer** ar y lefelau Corfforaethol a Gweithredol/Deilliannau Clinigol.

Safon 30

Mae sefydliadau gofal iechyd:

- a. *yn meddu ar raglenni systematig dan reolaeth i atal clefydau a hybu iechyd, sy'n cynnwys staff, ac yn ateb gofynion y Fframweithiau Gwasanaeth Cenedlaethol, cynlluniau cenedlaethol, a blaenoriaethau hybu iechyd ac ataliol; ac*
- b. *ystyried yn llawn bolisiâu presennol a rhai sydd ar fin ymddangos, a gwybodaeth am faterion iechyd y cyhoedd wrth ddatblygu eu rhaglenni iechyd y cyhoedd, hybu iechyd a gwasanaethau ataliol, a chomisiynu a darparu gwasanaethau.*

S30.1. Asesodd y BILI ei hun fel yn **Datblygu** ar y lefelau Corfforaethol a Gweithredol/Deilliannau Clinigol ac yn **Arfer** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S30.2. Medrodd y BILI ddangos eu bod yn cymryd camau i ymdrin â'r Safon hon fel a ganlyn:

- Mae'r TLIC yn arwain ac yn cefnogi gwaith grŵp allweddol gwella iechyd mewn partneriaeth â sefydliadau lleol eraill, e.e., Gweithgor Maeth, Gweithgor Tybaco , a'r Gweithgor Iechyd Rhywiol.
- Mae gan bob grŵp Gylch Gorchwyl a byddant yn datblygu cynllun gweithredu blynyddol.
- Cymeradwyodd y BILI Femorandwm Dealltwriaeth ar warchod iechyd rhwng y GICC a BILI.

S30.3. Mae cynllun gwaith blynyddol y TLIC yn cael ei gytuno a'i lofnodi gan y Prif Weithredwr ac y mae'n cynnwys yr holl flaenoriaethau iechyd lleol a chenedlaethol allweddol. Trosir polisiâu a chanllawiau canolog yn gamau gweithredu lleol, a chaiff blaenoriaethau lleol eu nodi a'u cefnogi trwy waith asesu anghenion.

S30.4. Sefydlwyd nifer o brosiectau, er enghraifft, y prosiect Maeth a Sgiliau Coginio dan arweiniad y gwasanaethau ieuenctid. Nod y prosiect hwn yw hybu bwyta'n iach mewn clybiau ieuenctid trwy brosiect "Coginio a Bwyta" a nosweithiau gwneud

smwddis, ac y mae'n brosiect sydd yn mynd at unigolion ac yn eu hannog i gydnabod eu cyfrifoldeb tuag at eu hiechyd a'u lles.

S30.5. Yr ydym yn cytuno gydag asesiad y BILI o **Ddatblygu** ar y lefelau Corfforaethol a Gweithredol/Deilliannau Clinigol ac yn ystyried hefyd eu bod yn **Datblygu** ar lefel Profiad y Defnyddiwr. Mae gwelliannau yn cael eu gwneud mewn llawer maes, er nad yw hyn eto'n gyson ar draws y sefydliad.

Safon 31

Mae sefydliadau gofal iechyd:

- a. *yn meddu ar gynlluniau i symud adnoddau i warchod y cyhoedd os bydd clefydau heintus yn digwydd ar raddfa eang, ac mewn argyfyngau iechyd eraill;*
- b. *yn gallu adnabod a gweithredu ar broblemau iechyd cyhoeddus sylweddol a materion anghydraddoldebau iechyd, gyda'r Byrddau Iechyd Lleol yn arwain;*
- c. *yn gweithredu rhaglenni effeithiol i wella iechyd a lleihau anghydraddoldebau iechyd ; ac i warchod eu poblogaethau rhag peryglon presennol a newydd i iechyd; ac*
- d. *annog a chefnogi unigolion i gydnabod eu cyfrifoldebau eu hunain o ran cynnal eu hiechyd a'u lles.*

S31.1. Gweler yr ymateb i Safon 18.

Safon 32

Mae sefydliadau gofal iechyd yn cyrraedd y Safon Iechyd Corfforaethol, y nod ansawdd cenedlaethol am iechyd yn y gweithle, gan symud i lefel uwch adeg ailasesu.

S32.1. Asesodd y BILI ei hun fel yn **Arfer** ar y lefelau Corfforaethol, Gweithredol/Deilliannau Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S32.2. Dyfarnwyd y Safon Aur i'r BILI yn 2005, ac y mae'r gweithgor ar hyn o bryd yn paratoi ar gyfer ailasesu ym Mawrth 2008. Yr ydym yn cytuno fod y BILI yn **Arfer** ar y tair lefel.

5. Y Camau Nesaf

5.1. Mae gofyn i BILI Sir Ddinbych cyhoeddi Cynllun Gwella Safonau Gofal Iechyd erbyn 30 Tachwedd 2007. Cytunir ar y cynllun hwn gan Swyddfa Ranbarthol Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru, a fydd yn monitro ei weithredu fel rhan o'r trefniadau rheoli perfformiad sydd ar gael i GIG Cymru. Bydd ar gael ar wefan y BILI.

5.2. Dros y misoedd nesaf bydd AGIC yn gweithio gyda rhanddeiliaid i fireinio a gwella'r erfyn asesu ar gyfer y dyfodol ac i osod y broses hunanasesu Safonau Gofal Iechyd yn gyflin â'r cylch ariannol blynyddol.

5.3. Cyhoeddir adroddiad Cymru gyfan ym mis Tachwedd 2007 a bydd hwn yn integreiddio canfyddiadau adroddiadau unigol yn drosolwg o'r sefyllfa ar draws Cymru. Bydd hyn yn amlygu'r themâu allweddol a'r meysydd risg a amlygwyd gan y broses asesu Safonau Gofal Iechyd.

Diffiniadau o Lefel Aeddfedrwydd

	Ymwybodol	Ymateb	Datblygu	Arfer	Arwain
Corfforaethol	Mae'r Bwrdd yn ymwybodol o'r materion i ymdrin â hwy ond yn methu arddangos penderfyniadau/camau i fynd i'r afael â hwy.	Mae'r Bwrdd yn adnabod y materion allweddol ac wedi nodi dewisiadau sy'n cael eu blaenoriaethu, er nad oes tystiolaeth o gyfeiriad strategol.	Mae'r Bwrdd yn cymryd camau i ymdrin â materion allweddol trwy ddatblygu cynlluniau strategol gyda thystiolaeth o arfer da ar draws y sefydliad.	Bwrir ymlaen â'r agenda strategol a chaiff ei monitro gan y Bwrdd gyda thystiolaeth arwyddocaol o wella cyson ar draws y sefydliad.	Mae'r Bwrdd yn arwain yr agenda trwy weithredu arferion arloesol a rennir ar draws a thu hwnt i'r sefydliad at eraill, fel bod modd gwireddu cynaladwyedd yn y tymor hir.
Gweithredol	Y mae ymwybyddiaeth o'r materion i ymdrin â hwy yn bodoli, ond ni ddatblygwyd agweddau i fynd i'r afael â hwy.	Cydnabyddir y materion allweddol i ymdrin â hwy ac y mae ystod o ddewisiadau wedi eu nodi i fynd i'r afael â hwy.	Cymerir camau i ymdrin â'r materion allweddol gyda thystiolaeth o gymhwyso ymarferol ar draws y sefydliad.	Mae cynlluniau datblygedig yn cael eu gweithredu leded y sefydliad sydd yn ymdrin â'r materion allweddol gyda thystiolaeth o werthuso a meincnodi yn arwain at wella parhaus.	Mae tystiolaeth o arferion arloesol, a rennir ar draws a thu hwnt i'r sefydliad at eraill. Maent yn datblygu mwy ar eu hagweddau i sicrhau gwelliant cynaliadwy yn y tymor hir.
Profiad y Defnyddiwr	Mae profiad yr unigolyn/ion yn gyffredinol wael ac ni ddatblygwyd unrhyw agweddau yn y gwasanaeth i fynd i'r afael â hwy.	Mae profiad yr unigolyn/ion yn gyffredinol heb fod yn dda er y datblygwyd agweddau yn y gwasanaeth i fynd i'r afael â hwy.	Mae profiad yr unigolyn/ion yn gwella mewn llawer maes, er nad yw hyn eto yn gyson ar draws y sefydliad.	Mae profiad yr unigolyn/ion yn gyffredinol dda ar draws pob maes.	Mae profiad yr unigolyn/ion yn gyffredinol ragorol a gall y gwasanaeth ddangos tystiolaeth glir o arfer da y mae modd ei rannu.

Atodiad 2

Crynodeb o Lefelau Aeddfedrwydd yn ôl Safon

Allwedd

A	Arwain
Arf	Arfer
D	Datblygu
Y	Ymateb
Ymw	Ymwybodol

Safon 1

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (fyny/ Lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Arf	↓	D
Gweithredol/Deilliannau Clinigol	D	↓	Ymateb
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 2

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (fyny/ Lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Gweithredol/Deilliannau Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	Arf	↓	D

Safon 3

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (fyny/ Lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Gweithredol/Deilliannau Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 4

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (fyny/ Lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Gweithredol/Deilliannau Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	Arf	↓	D

Safon 5

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (fyny/Lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Arf	↓	D
Gweithredol/Deilliannau Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	Arf	↓	D

Safon 6

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (fyny/Lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Gweithredol/Deilliannau Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 7

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (fyny/Lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Arf	↓	D
Gweithredol/Deilliannau Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	Arf	↓	D

Safon 8

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (fyny/Lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Arf	↓	D
Gweithredol/Deilliannau Clinigol	Arf	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	Arf	↓	D

Safon 9

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (fyny/Lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Ymateb	↔	R
Gweithredol/Deilliannau Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 10

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (fyny/Lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Gweithredol/Deilliannau Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 11

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (fyny/Lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Gweithredol/Deilliannau Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 12

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (fyny/Lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Gweithredol/Deilliannau Clinigol	D	↓	Ymateb
Profiad y Defnyddiwr	D	↓	Ymateb

Safon 13

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (fyny/Lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Gweithredol/Deilliannau Clinigol	Arf	↓	Ymateb
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 14

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (fyny/Lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Arf	↓	D
Gweithredol/Deilliannau Clinigol	Arf	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	Arf	↔	Arf

Safon 15

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (fyny/ Lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Arf	↓	D
Gweithredol/Deilliannau Clinigol	Arf	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 16

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (fyny/ Lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Gweithredol/Deilliannau Clinigol	Arf	↔	Arf
Profiad y Defnyddiwr	Arf	↔	Arf

Safon 17

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (fyny/ Lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Arf	↔	Arf
Gweithredol/Deilliannau Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 18

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (fyny/ Lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Arf	↓	D
Gweithredol/Deilliannau Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 19

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (fyny/ Lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Gweithredol/Deilliannau Clinigol	Arf	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	Arf	↔	Arf

Safon 20

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (fyny/ Lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Arf	↔	Arf
Gweithredol/Deilliannau Clinigol	Arf	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	Arf	↓	D

Safon 21

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (fyny/ Lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Arf	↓	D
Gweithredol/Deilliannau Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 22

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (fyny/ Lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Arf	↓	D
Gweithredol/Deilliannau Clinigol	Arf	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	Arf	↓	D

Safon 23

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (fyny/ Lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Gweithredol/Deilliannau Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 24

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (fyny/ Lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Arf	↔	Arf
Gweithredol/Deilliannau Clinigol	Arf	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	Arf	↓	D

Safon 25

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (fyny/Lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Arf	↓	D
Gweithredol/Deilliannau Clinigol	Arf	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

Safon 26

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (fyny/Lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Arf	↓	D
Gweithredol/Deilliannau Clinigol	Arf	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	Arf	↓	D

Safon 27

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (fyny/Lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Arf	↔	Arf
Gweithredol/Deilliannau Clinigol	Arf	↔	Arf
Profiad y Defnyddiwr	Arf	↔	Arf

Safon 28

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (fyny/Lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Arf	↔	Arf
Gweithredol/Deilliannau Clinigol	Arf	↔	Arf
Profiad y Defnyddiwr	Arf	↔	Arf

Safon 29

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (fyny/Lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Arf	↔	Arf
Gweithredol/Deilliannau Clinigol	Arf	↔	Arf
Profiad y Defnyddiwr	Arf	↓	D

Safon 30

	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (fyny/ Lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Gweithredol/Deilliannau Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	Arf	↓	D



Safon 31 – Ddim yn gymwys

Safon 32


	Sgôr Hunanasesu	Amrywiad (fyny/ Lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Arf	↔	Arf
Gweithredol/Deilliannau Clinigol	Arf	↔	Arf
Profiad y Defnyddiwr	Arf	↔	Arf

Atodiad 3


Crynodeb o Aeddfedrwydd yn ôl Lefelau Corfforaethol, Gweithredol/Deilliannau Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr




Sgoriau Aeddfedrwydd Lefel Weithredol/Deilliannau Clinigol



Sgoriau Aeddfedrwydd Lefel Profiad y Defnyddiwr



Cytuno/Anghytuno â Sgôr y BILI



Atodiad 4

Geirfa o Derau Allweddol

archwilio clinigol – gwerthuso a mesur gan weithwyr iechyd proffesiynol i weld i ba raddau y maent yn cyfarfod safonau a osodwyd ar gyfer eu gwasanaeth.

Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion (AGDC) - awdurdod iechyd arbennig a grëwyd ym mis Gorffennaf 2001 i gydgorio ymdrechion Prydain gyfan i adrodd am gamgymeriadau a phroblemau sy'n effeithio ar ddiogelwch cleifion, ac yn fwy pwysig, i ddysgu ohonynt.

Bwrdd Ymddiriedolaeth – grŵp o bobl sydd yn ôl statud yn gyfrifol am brif benderfyniadau polisi a strategaeth ym mhob Ymddiriedolaeth GIG. Fel arfer, ceir cadeirydd lleig, pum aelod lleig, Prif Weithredwr yr Ymddiriedolaeth a Chyfarwyddwyr Gweithredol.

Byrddau Iechyd Lleol (BILI) – cyrff statudol sydd yn gyfrifol am weithredu strategaethau i wella iechyd y boblogaeth lleol, sicrhau a darparu gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol a chymunedol a sicrhau gwasanaethau gofal eilaidd.

cerdyn sgorio cytbwys - system reoli sydd yn rhoi model lle gall sefydliad egluro ei weledigaeth a'i strategaeth a'u trosi yn weithredoedd. Mae'n cefnogi gwella cyson ym mherfformiad sefydliad.

Cronfa Risg Cymru (CRC) - cynllun hunan-aswiriant cilyddol i bob corff iechyd yng Nghymru. Mae hefyd yn cefnogi diogelwch cleifion a staff trwy annog a chefnogi perfformiad da o ran rheoli ac asesu risg trwy fesur yn erbyn safonau penodol.

Cyngor Iechyd Cymuned (CIC) - sefydliadau hybu, eiriol a pholisi iechyd sydd yn seiliedig ar y gymuned a heb eu rhedeg am elw. Sefydlwyd CIC ym 1992 i gryfhau ymwneud y gymuned mewn diffinio polisiâu gwladwriaethol a lleol sydd yn cael effaith ar fynediad at ofal iechyd a'i safon. Mae CIC yn cynrychioli budd y cyhoedd yn y GIG ac y mae ganddynt hawl statudol i gael ymgynghori â hwy mewn newidiadau iechyd yn eu hardal.

Cynllun Oes - gosod weledigaeth am ddyfodol gwasanaethau iechyd yng Nghymru ac y mae ganddo strategaeth 10 mlynedd er mwyn ymgynghori at hynny. Mae'r strategaeth yn cynnwys tri fframwaith strategol, a phob un yn para tua thair blynedd. Y rhain yw: Fframwaith 1 (2005-2008) Ailgyllunio Gofal Iechyd; Fframwaith 2 (2008-2011) Cyflwyno Safonau Uwch a; Fframwaith 3 (2011-2014) Gwasanaethau Gorau yn y Byd.

Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd (CCC) – strategaeth a gynlluniwyd i ofalu yr ystyrir barn cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a'r cyhoedd wrth gynllunio a chyflwyno gwasanaethau.

Datganiadau Rheolaeth Fewnol - datganiad ar drefniadau cyffredinol corff y GIG i gael sicrwydd am reolaeth effeithiol y prif risgiau yn y sefydliad.

deilliant clinigol – effaith triniaeth ar iechyd neu les unigolyn.

diogelu data – gofyniad ar gyfrif cyhoeddus ac eraill i weithredu yn gyfrifol wrth reoli data personol. Daw'r cyfryw gyfrifoldebau dan Ddeddf Diogelu Data 1984 a Deddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron 1990, a fwriadwyd i ddiogelu data a gedwir am unigolion.

Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol (FfGC) – canllawiau i'r gwasanaeth iechyd am sut i reoli a thrin mathau penodol o afiechydon a chlefydau.

Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan – rhoi cyngor i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar reolaeth strategol ar feddyginiaethau a'u rhagnodi.

Gwarcheidwad Caldicott – uwch-weithiwr clinigol ym mhob sefydliad GIG sydd yn gyfrifol am weithredu agweddau o adroddiad Caldicott, oedd yn adolygu gwarchod a defnyddio gwybodaeth am gleifion.

Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru (GICC) - cyflwyno ystod lawn o wasanaethau iechyd cyhoeddus i wella iechyd a lles pobl Cymru a lleihau anghydraddoldebau mewn iechyd; gwarchod rhag clefydau a bygythiadau iechyd presennol, newydd a rhai sy'n ymddangos, a chyfrannu at welliannau mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Ilwybr gofal - set ddiffiniedig o gamau trin a gofal a fwriadwyd i gwrdd ag anghenion penodol pob claf.

Ilywodraethu clinigol – fframwaith sy'n peri fod sefydliadau'r GIG yn atebol am barhau i wella ansawdd eu gwasanaethau a diogelu safonau uchel o ofal.

Rhaglen Arweinyddiaeth Glinigol Coleg Brenhinol y Nyrsys (RCN) - rhaglen sy'n caniatáu amser wedi ei neilltuo i nyrsys arsylwi gofal a chyflwyno gwasanaethau, a chyfweld cleifion am gyflwyno gofal. Fe'i bwriadwyd i alluogi nyrsys i ddatblygu a mireinio eu galluoedd arwain, gwella sgiliau tîm a sefydliad a chanolbwyntio ar anghenion cleifion.

rheoli haint – set o weithdrefnau i atal haint rhag lledu a fydd yn cynnwys, er enghraifft, golchi dwylo, defnyddio cyfarpar wedi ei steryllu, etc.

rhwydweithiau clinigol – grŵp o wasanaethau sy'n gweithio gyda'i gilydd ar draws ffiniau sefydliadau i roi gwell gofal i gleifion.

Safonau Gofal Iechyd – fframwaith cyffredin o safonau gofal iechyd a gyhoeddwyd ym Mai 2005 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi'r GIG a sefydliadau sy'n bartneriaid i ddarparu gwasanaethau effeithiol, amserol a safonol ar draws pob lleoliad gofal iechyd

Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Clinigol (NICE) – awdurdod iechyd arbenigol sy'n darparu canllawiau i'r GIG a chleifion ar feddyginiaethau, cyfarpar meddygol a gweithdrefnau clinigol.

Swyddfa Cofnodion Troseddol (SCT) – asiantaeth weithredol a sefydlwyd i helpu sefydliadau i wneud penderfyniadau recriwtio diogelach trwy roi mynediad ehangach at wybodaeth am euogfarnau troseddol. Mae'r SCT yn helpu cyflogwyr yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i adnabod ymgeiswyr a all fod yn anaddas ar gyfer rhai mathau o waith, yn enwedig gwaith sydd yn golygu dod i gysylltiad â phlant neu aelodau eraill o gymdeithas sy'n agored i niwed.

Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) - cyrff y tu mewn i'r GIG sy'n llywodraethu eu hunain, sy'n darparu gwasanaethau gofal iechyd. Mae ymddiriedolaethau yn cyflogi ystod lawn o weithwyr gofal iechyd proffesiynol gan gynnwys meddygon, nyrsys, dietegwyr, ffisiotherapyddion, etc. Mae ymddiriedolaethau aciwt yn darparu gwasanaethau meddygol a llawfeddygol, mewn ysbytai fel rheol. Mae ymddiriedolaethau cymunedol yn darparu gwasanaethau iechyd lleol, fel arfer yn y gymuned, e.e., nyrsys ardal, trinwyr traed, etc. Mae ymddiriedolaethau cyfun yn darparu gwasanaethau ymddiriedolaeth cymunedol ac aciwt dan yr un rheolaeth.